# Y DINESYDD

Ebrill 2021 — Papur Pobl Caerdydd a'r Fro — Rhif 457 £1.20



**Y diweddaraf am Dŷ'r Cymry td. 3**

**Teyrnged i Euryn Ogwen td. 7**









**Cyfarchion i ddeon fu'n ddiwyd td.6**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Mai***
***Ioan Kidd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ebrill i:
ioankidd@hotmail.com
3 Ceiriog Drive, Pantmawr,
Caerdydd CF14 7TU
029 20657665

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Y DINESYDD A'R PANDEMIG

Ar ddechrau Cyfnod y Clo y llynedd fe benderfynodd pwyllgor y Dinesydd barhau i gyhoeddi'r papur a'i ddosbarthu ar-lein yn rhad ac am ddim tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Rhoddwyd y rhifynnau misol hefyd ar wefan y Dinesydd ac ar blatfform Golwg, Bro360.

Ar gais rhai oedd heb yr adnoddau digidol angenrheidiol, fe argraffwyd nifer o gopïau caled a'u dosbarthu â llaw. Diolch i'r tîm o ddosbarthwyr gwirfoddol. Gwerthfawrogwyd y gwasanaeth hwn yn fawr.

**Beth am 2021-2022?**

Am y flwyddyn 2021-22, gan ddechrau gyda'r rhifyn hwn, sef rhifyn Ebrill, dyma'r drefn â'r tanysgrifiadau newydd a gytunwyd gan y pwyllgor. Gall ein darllenwyr ddewis un o'r ffyrdd canlynol i gael eu copi. Pris copi caled - **£1.20** (yn y siopau os byddant ar agor)

Tanysgrifiad am flwyddyn:

**£10** - derbyn copi pdf trwy e-bost

**£12 -** derbyn copi caled mewn canolfan (neu drwy law dosbarthwr lleol hyd nes y bydd y canolfannau lleol yn ail-agor)

**£18** – derbyn copi caled trwy'r post

Os ydych chi'n arfer derbyn eich copi caled mewn canolfan neu mewn cymdeithas, yna y tanysgrifiad i chi fydd £12 – ac fe drefnwn ni eich bod yn ei dderbyn drwy'r drws hyd nes y bydd y sefydliadau yn ailagor.

Mae'r 'gwasanaeth' hwn yn dibynnu ar wirfoddolwyr i ddosbarthu'n lleol. Os ydych chi'n teimlo y gallwch chi helpu i ddosbarthu i rai cartrefi yn eich ardal chi, yna byddai Arthur, ein Cydlynydd Dosbarthu, yn falch o glywed wrthoch chi. (Gweler ei fanylion cysylltu yn y golofn ar y chwith.)

Ar ran y pwyllgor, diolch i chi am gefnogi'r *Dinesydd*, a Blwyddyn Newydd Well i bawb.

*Bryan James*
*(Cadeirydd)*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd,, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, 37 Arcêd y Castell
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Gwerthiant Tŷ'r Cymry wedi'i rwystro

Rhoddwyd Tŷ'r Cymry, canolfan Gymraeg yn ardal y Rhath, i Gymry Cymraeg Caerdydd ym 1936 yn fan cyfarfod er mwyn hyrwyddo'r iaith a statws cyfansoddiadol Cymru. Mae ganddo dreftadaeth gyfoethog o bwys cenedlaethol, fel y soniwyd amdano yn rhifyn mis Mawrth y *Dinesydd*. Ond mae llawer wedi digwydd yn y mis ers hynny.

Rhestrwyd y Tŷ i'w werthu gyda dim ond pythefnos o rybudd, drwy ocsiwn ar-lein ar 29 Mawrth. Ond erbyn y 26ain, cafodd e ei dynnu'n ôl. Does dim rheswm wedi ei gyhoeddi.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod â swyddfa yn y ganolfan ers deugain mlynedd, ond mae staff a gwirfoddolwyr yn gweithio gartref ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Mae'r Gymdeithas yn talu rhent o hyd ac wedi mynegi eu hawliau fel tenant i'r Tŷ, gan barhau i alw am drafodaeth - does dim ymgynghori wedi digwydd hyd yn hyn.

Nid y Gymdeithas yn unig sy'n gwrthwynebu'r gwerthiant. Ar ôl clywed bod bygythiad i'r ganolfan gau, daeth grŵp o wirfoddolwyr lleol ynghyd i lunio cynllun i ailddatblygu'r adeilad, gan arddangos potensial cyffrous y ganolfan i gyflawni nodau gwreiddiol y rhodd yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cynnwys rhestr o wirfoddolwyr sy'n frwd i helpu fel ymddiriedolwyr newydd, cefnogaeth amryw fudiadau fel cwsmeriaid a phartneriaid, ffynonellau grantiau, a chynlluniau pensaernïol ar gyfer opsiynau addasu.

*Y twll ar y wal lle bu'r plac*



Ond mae'r ymddiriedolwyr wedi gwrthod yn swta, heb ddarparu unrhyw resymau na chyfiawnhad.

Dywedodd Steve Blundell, Cadeirydd Rhanbarth Morgannwg-Gwent Cymdeithas yr Iaith:

"Pwyllgor o ddeuddeg sydd i fod i reoli'r Tŷ, ond does ond tri ohonyn nhw yn weddill, ac mae un o'r rheini o blaid rhoi cyfle i'r criw newydd. Cwbl afresymol yw ceisio gwerthu'r lle yn wyneb hyn, heb drafod dim gyda'r gymuned, tra bod diffyg adnoddau Cymraeg o'r fath yn y ddinas ar ôl i nifer ddiflannu dros y blynyddoedd diwethaf. Siomedig iawn yw gweld y bonyn trist o farmor ar ôl ar wyneb y Tŷ lle roedd plac hanesyddol yn nodi'r rhodd anrhydeddus i'r gymuned. Mae rhywun wedi torri hanes Cymry Cymraeg Caerdydd i ffwrdd."

## Cyfarfod Blynyddol y Dinesydd

Cynhelir hwn ar Zoom am 7.00 o'r gloch nos Iau, 17 Mehefin. Croeso i chi ymuno â ni. Cewch gyfle i glywed ychydig am hynt eich papur bro yn ystod blwyddyn ryfedd, a chyfle hefyd i fynegi barn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnal y papur.

Ie, 'rhyfedd' yw'r gair i ddisgrifio'r flwyddyn 2020-2021 yn hanes y Dinesydd ond fe lwyddwyd i gyhoeddi rhifyn ym mhob un o'r ddeg mis arferol – a rhifyn ychwanegol ym mis Awst! Llwyddwyd i gynnal y safon o ran cynnwys a diwyg ac fe ddosbarthwyd copïau digidol, yn rhad ac am ddim, i bob cwr o'r wlad a thu hwnt. Cafwyd un ymateb o Efrog Newydd! Yn ogystal â hyn, dosbarthwyd copïau caled, eto yn rhad ac am ddim, i nifer o'n darllenwyr oedd heb yr adnoddau digidol. Cafwyd ymateb gwerthfawrogol iawn.

Roedd hyn i gyd yn bosibl oherwydd rhoddion hael gan nifer fawr o'n darllenwyr a rhai sefydliadau. Mae diolch mawr yn ddyledus hefyd i gyfranwyr yr erthyglau diddorol, i'r golygyddion am eu gwaith trylwyr ac i Eirian Dafydd, ein cysodydd, am ei gwaith hynod o grefftus.

**Ym mis Mehefin bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol yn ymddeol o'u swyddi. Yn y Cyfarfod Blynyddol, felly, bydd angen ethol rhywun newydd i'r ddwy swydd.** Os oes diddordeb gennych chi i gymryd rhan yng ngwaith y Dinesydd, neu os gwyddoch am rywun y gallem ofyn iddyn nhw, yna byddem yn falch iawn oddi wrthoch chi. [Rhifau cyswllt ar dudalen 2 neu bryan.val.james@gmail.com / 07800 768059]

*Bryan James*
(Cadeirydd)

# Colofn G.R.



*"Hawddamor a henffych well!"*

Codwch eich calonnau bobl achos mae'r gwanwyn yn y tir a'r dydd yn ymestyn a'r tywydd yn gwella a channoedd o Gennin Pedr yn harddu ein gwlad. Ar ben hyn oll mae lle i lawenhau gan fod y brechlynnau rhag y feirws yn rhoi gobaith inni am ddyddiau gwell i ddod er bydd angen inni fod ar ein gwyliadwriaeth am fisoedd eto rhag ofn i'r feirws felltith ddychwelyd i'n plith yn gryfach nag erioed.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cân i Gymru ar S4C y mis diwethaf ac ymgeisiodd bron i gant am y wobr o £5,000 a dewisodd y beirniaid restr fer o wyth cân i'w perfformio mewn rhaglen ar y sianel. Yr enillydd odd Morgan Elwy Williams gynt o ardal Llansannan am ei gân reggae 'Bach o hwne' a dwi'n sicr bydd ugeiniau o bobl ifanc Maes B yn yr Eisteddfod Genedlaethol wrth eu boddau yn dawnsio i'r gân yn Nhregaron flwyddyn nesaf!

Hogyn arall a gafodd dipyn o sylw ar y cyfryngau a'r wasg yn ddiweddar odd Stephen Varney o ardal Rhoshill yn Sir Benfro sy wedi bod yn chwarae fel maswr yn nhîm rygbi'r Eidal yng Nghystadleuaeth Rygbi'r Chwe Gwlad gan fod ei deulu ochr ei fam o dras Eidalaidd. Mae o'n rhugl yn y Gymraeg ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Uwchradd y Preseli ac ar hyn o bryd mae o'n chwarae i dîm rygbi Caerloyw! Rhyfedd o fyd ynte!

Y mis hwn rhaid i mi gywiro rhai ffeithiau mewn erthygl am ddyfodol Tŷ'r Cymry yn Heol Gordon yn y Rhath a ymddangosodd yn rhifyn mis Mawrth o'r *Dinesydd* lle dywedir mai Owen John Thomas a minnau sefydlodd y Cylch Meithrin cyntaf yn y ddinas. Ond, na, sefydlwyd y cylch gan bobl megis Annie Humphreys, Olwen Jones, Buddug Thomas a Nesta Rees a hynny yn festri Capel y Crwys nôl ym 1951. Yna ymhen amser symudodd y cylch i ardal y Mynydd Bychan. Flynyddoedd wedyn aeth Owen John Thomas ati i ganfasio yn ardaloedd y Sblot a'r Rhath ac o ganlyniad defnyddiwyd festri Capel y Crwys unwaith eto cyn i'r cylch newydd hwn symud i Dŷ'r Cymry. Sefydlais i Gylch Meithrin yn Rhiwbeina odd yn dal yn yr hen Sir Forgannwg yn 1959 ac mae'n dda gen i adrodd bod y cylch yn dal i ffynnu ac yn 62 oed eleni. Felly, dyma fi wedi achub cam yr arloeswyr a sefydlodd y Cylch Meithrin cyntaf yng Nghaerdydd!

Un broblem sy wedi bod yn poeni Cymdeithas yr Iaith ac eraill ydy'r ffaith fod llawer o enwau Cymraeg cynhenid ar dai, ffermydd, tirwedd ac eiddo yn aml bellach mewn perygl o fynd ar ddifancoll ac enwau Saesneg yn disodli'r hen enwau. Mae ymgyrch ar droed ers amser rwan i geisio cael deddf i ddiogelu ein treftadaeth.

Odd gen i fodryb yn byw mewn rhes o dai ar ymyl y ffordd fawr ym Mhentre Penmorfa rhwng Porthmadog a Chaernarfon ac ar ei marwolaeth gwerthwyd y tŷ a blwyddyn neu ddwy wedyn digwyddais i basio'r tŷ ar fy ffordd i Gaernarfon a chynhyrfais i'n lân wrth weld enw Saesneg ar wal y tŷ sef "The Homestead"! Teimlais fel rhwygo'r arwydd hyll hwn o'r wal! Yna ymhen amser pasiais i'r tŷ eto ac odd yr arwydd wedi diflannu, diolch byth!

Pan o'n i'n astudio yn y Gyfadran Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth, mi fentrais i herio'r Dr Jac Williams, fy narlithydd gan mai "Quebec" odd enw ei dŷ yn Llanbadarn a'i ateb odd y byddai'n anodd dewis enw Cymraeg ar ei dŷ gan mai "Toronto" odd enw'r tŷ drws nesaf!

Mae'r gyfres o raglenni *Sgwrs dan y lloer* ar S4C wedi taro deuddeg hefo llawer o'r gwylwyr ac un o'r gwestai odd yr anfarwol Dewi Pws Morris gynt o Dreboeth yn Abertawe. Mae o wedi llwyddo i roi gwên ar ein hwynebau dros y blynyddoedd. Cofiaf un tro pan odd o'n dal yn athro Cymraeg yn y Sblot daeth yn swog i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog ar gwrs i blant odd yn dysgu Cymraeg ac yn ystod yr wythnos buodd o a'i gyd-swog y diweddar Eurig Wyn yn dysgu cyfarchion o'r Mabinogion i'r plant! Daeth diwedd yr wythnos â'r plant ar y bysiau yn barod i ffarwelio â'r swogs a'r gwersyll a nifer ohonyn nhw yn ffenestri'r bysiau yn codi llaw a gweiddi "Hawddamor" a "Henffych well"!

Boddi yn ymyl y lan fuodd hanes tîm rygbi Cymru wrth golli i Ffrainc yn ystod munud olaf y gêm ym Mharis ar ôl gêm gyffrous, a dadleuol ar brydiau. Ond o leiaf enillwyd y Goron Driphlyg wrth guro Iwerddon, yr Alban a Lloegr a felly diolch gwresog i'r bechgyn am eu hymdrechion canmoladwy yn ystod y Gystadleuaeth. Ymlaen bo'r nod!

---


Cymrodorion Caerdydd
Sefydlwyd 1885

**O.M.Edwards:**
**Caerdydd, Cymru a'r Cymrodorion**

Cyflwyniad ar Zoom gan
**Yr Athro Hazel Walford Davies**
Nos Wener 7 Mai 7.30 y.h.

I sicrhau'r ddolen i ymuno â'r cyfarfod ar Zoom cysyllter â'r Ysgrifennydd
Gwynn Matthews.
ebost: m.g.derwendeg@gmail.com
(ffôn: 029 20891802)

*Croeso cynnes i bawb*
*Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig*

# Colofn Natur

## *Gorlifdir Radur*



**Gethin Jenkins-Jones**

Mae tyfu i fyny yn gyfnod o newidiadau cyson, gyda'n bywydau yn esblygu yn barhaus tan inni dyfu i fod yn oedolyn. Roedd hyn yn sicr yn wir i mi, efo gwaith a diddordebau hamdden newydd yn newid fy amserlen o'r naill flwyddyn i'r llall. Ond ymysg yr holl newid, un peth cyson yn fy mywyd ar hyd fy arddegau oedd ymweliadau wythnosol â'r safle byddaf yn sôn amdano heddiw - Gorlifdir Radur.

Fe wnes i ddarganfod y gorlifdir un bore llwyd ar ddechrau 2010, yn 11 oed ac yn fuan ar ôl i mi ddechrau gadael y tŷ i fforio ar fy mhen fy hun. Yn dir gymharol wyllt ger y Taf, roeddwn yn synnu nad oeddwn wedi darganfod y lle'n gynt. Wedi'r cyfan, roedd wedi'i leoli gyferbyn â Fferm y Fforest - safle oedd yn hen gyfarwydd i mi ar y pryd. Cymysgedd o laswellt a llwyni ydy'r lle (ag edrychiad tebyg i'r Dolydd Gogleddol), a phan ddaeth y gwanwyn a'r haf fe wnes i ddarganfod bod bywyd gwyllt yr ardal yn rhagorol. Yn fuan fe ddaeth yn fy hoff le lleol, a hyd heddiw mae'r ardal yn agos at fy nghalon.

**Gorlifdir Radur**





**Gwalch y pysgod**
**Llun: Philip Croft**

Ar ddiwrnodau cynta'r gwanwyn mae'n ardal dda i weld rhai o'n hanifeiliaid yn deffro ar ôl sawl mis o aeaf gysgu. Mae pili-palod fel yr Adain Garpiog a'r Glöyn Trilliw Bach yn aml i'w gweld yn torheulo ar yr hen redyn sych, a'u hadenydd yn lled agored i amsugno gwres gwan yr haul. Hefyd yn olwg gyffredin yw breninesau gwenyn cacwn yn chwilio yn y llystyfiant am hen dwnnel llygod i greu eu nythod. Prin y byddant yn gweld golau'r dydd ar ôl sefydlu nythfa, felly dim ond am gyfnod byr y gallem eu mwynhau. Yn aml i'w glywed ym mis Mawrth ac Ebrill hefyd yw cân onomatopeiaidd y siff-saff - aderyn sy'n bennaf yn treulio'r gaeaf yn Ne Ewrop - ac yn yr awyr gallwch weld sawl bwncath yn joio chwyrlïo i fyny ar thermolau cynta'r flwyddyn. Hwyrach yn y tymor bydd telorau penddu a llwydfronnau yn nythu yn y mieri, a daw'r glaswellt yn fyw efo symffoni sioncod y gwair.

Mae ymlacio ar ymyl yr afon ar ochr y safle hefyd yn fwynhad mawr i mi ac i lawer o bobl eraill. Ar y creigiau yng nghanol y dŵr byrlymus yn aml iawn byddwch yn gweld bronwennod â'u plu siocled tywyll a'u bolau gwyn yn bobo lan a lawr, neu gwpl o siglennod llwyd yn chwilio am bryfed ar y creigiau. Mae hefyd siawns o weld fflach o las wrth i las y dorlan wibio heibio, neu grychydd yn syllu i'r dŵr am bysgod. Mae ymweliadau wrth iddi fachlud yn yr haf hefyd yn hyfryd, efo ystlumod yn dal pry a gwyfynod uwchben wyneb y dŵr, a heidiau o wenoliaid duon yn eu mysg cyn iddynt fynd i glwydo.

Ond i mi, yr hydref yw'r amser mwyaf cyffrous i fod ar y gorlifdir gan ei fod yn gyfnod da i weld adar mwy prin y wlad wrth iddynt fudo i'r de. Ddegawd yn ôl byddwn yn aml yn gadael y tŷ cyn saith y bore (rhywbeth na allwn ei neud bellach!) ar benwythnosau rhwng misoedd Awst a Thachwedd i chwilio ymysg y llwyni. Yn achlysurol tra yn Ysgol Glantaf bues i hefyd yn mynd yno cyn cofrestru ac yn cyrraedd yr ysgol awr yn ddiweddarach â throwsus gwlyb gan wlith y glaswellt. Cefais fy ngwobrwyo o bryd i'w gilydd am fy ymdrechion, ac roedd ffeindio teloriaid y coed, dryw penfflamgoch yn yr awyr uwchben neu walch y pysgod yn deimlad tebyg i ffeindio trysor. Daeth yn arfer i mi fwyta brechdan â dau wy wedi ffrio at ôl gweld aderyn newydd - felly efallai mae'n beth da i fy mol nad ydw i'n aml yn gweld adar newydd yno bellach!

Wrth edrych yn nôl ar y degawd diwethaf, gallaf gadarnhau bod edrychiad y safle wedi newid rywfaint. Mae absenoldeb anifeiliaid pori wedi caniatáu i fieri, rhedyn a phlanhigion estron goresgynnol ymledu'n yn araf dros y safle. Mae rhai o'r llwybrau wnes i eu cerdded ddegawd yn ôl bellach wedi'u cuddio gan dyfiant, ond mae eraill yn dal i fodoli oherwydd defnydd cyson gan gerddwyr. Er bydd newid y dirwedd yn siŵr o barhau, dwi'n gobeithio bydd y gorlifdir yno ar hyd fy oes. Mae'n siom fawr bod y Dolydd Gogleddol am ddiflannu o fewn y blynyddoedd nesaf. Pe bai'r un peth yn digwydd yma hefyd, bydd yn drychineb o'r un fath - i mi ac ar gyfer cenedlaethau i ddod.

***Sut i gyrraedd Gorlifdir Radur (ST140802)***

Un o'r ffyrdd hawsaf i gyrraedd Gorlifdir Radur yw cymryd y trên i orsaf Radur ac yna cerdded o dan bont y rheilffordd ac i'r dwyrain tuag at faes Clwb Criced Radur. Fe allwch chi hefyd barcio'r car yn Fferm y Fforest a chroesi'r afon dros y bont droed ac cherdded tuag at y clwb criced.



## Dr Hefin Jones yn ymddeol fel Deon y Coleg Cymraeg yn sgil degawd o gyfraniad

Ddiwedd mis Mawrth, ymddeolodd y Dr Hefin Jones o'i rôl fel Deon cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Y Coleg sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng-Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf.

Yn Ddeon, buodd y Dr Jones yn gyswllt allweddol rhwng staff academaidd y Coleg a Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gan gadeirio'r Bwrdd Academaidd a chyfathrebu'n rheolaidd gydag uwch swyddogion y Coleg. Bu'n rhan o brosesau dyfarnu ac adolygu'r Coleg yn ogystal â chynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyhoeddus ar amryw o achlysuron.

Mae'r Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg, wedi gweithio gydag Dr Hefin Jones ers sefydlu'r Coleg yn 2011. Wrth dalu teyrnged i'r Dr Jones meddai'r Dr Trystan:

> "Wrth greu a sefydlu rôl y Deon aeth Hefin ati yn egnïol iawn i ymgysylltu gyda staff academaidd ym mhob cornel o Gymru ac ar draws pob maes heb anghofio ei waith uniongyrchol gyda myfyrwyr y Coleg a'i gefnogaeth tuag at y canghennau oddi fewn i'r prifysgolion. Dwi'n cofio sawl ymweliad diddorol iawn wrth i Hefin ymgymryd â thaith y Deon o amgylch prifysgolion Cymru – o gefnogi perfformiadau drama i gynorthwyo amaethwyr gyda thymor wyna yn Sir Gâr! Mae'n wir i ddweud bod Hefin wedi taflu ei hunan i mewn i bob agwedd ar y gwaith gydag afiaith a brwdfrydedd. Mae ei ymrwymiad a'r amser y mae wedi cyfrannu tuag at waith a chenhadaeth y Coleg wedi bod yn amhrisiadwy a byddwn yn gweld eisiau ei gyngor a'i arweiniad. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn iddo am ei gyfraniad fel Deon y Coleg."

Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: www.colegcymraeg.ac.uk.

---

## Partneriaeth elusennol genedlaethol i gefnogi plant milwyr ledled Cymru

Mae'r elusen i blant milwyr, Little Troopers, wedi ffurfio partneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu adnoddau i bob ysgol gynradd yng Nghymru ar gyfer plant sydd â rhieni'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Mae'r bartneriaeth genedlaethol yn rhan o raglen Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg (SSCE) Cymru, sy'n ceisio darparu'r cymorth addysgol gorau posib i blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Amcangyfrifir bod mwy na 2,000 o blant milwyr mewn ysgolion ar draws y wlad.

Bydd y 400 o ysgolion cynradd yng Nghymru sydd wedi nodi bod ganddynt blant y Lluoedd Arfog yn mynychu eu hysgol yn cael copïau Cymraeg a Saesneg o gyfres llyfr stori Little Troopers i'w defnyddio mewn gwersi ac yn eu llyfrgelloedd ysgol. Mae'r chwe stori wedi'u hysgrifennu gan yr awdur plant, Donna David, ac maent i gyd yn cynnwys plant milwyr fel prif gymeriadau. Mae dwy stori ar gyfer pob gwasanaeth – y Llynges Frenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol. Mae pob stori yn dod â rhai o'r profiadau a'r emosiynau mae plant y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu, pan fydd eu rhiant yn cael eu hanfon dramor neu pan fyddant oddi cartref oherwydd ymrwymiadau milwrol.

Bydd 75 o ysgolion cynradd Cymru yn cael copïau o dempled Cwrs Lles Cynradd Little Troopers hefyd yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r cwrs rhyngweithiol hwn wedi'i ddylunio i gael ei gyflwyno ar draws saith sesiwn gyda grwpiau bach o fyfyrwyr. Mae'n annog plant y Lluoedd Arfog rhwng 4 ac 11 oed i ystyried rhai o heriau unigryw bywyd milwrol fel ymdopi â gwahanu, adleoli, symud tŷ a byw dramor, yn ogystal â themâu personol fel perthyn, hunaniaeth ac ymwybyddiaeth ofalgar. Crëwyd y cwrs ar y cyd â rhieni, athrawon, therapydd ymddygiad, seicotherapydd a therapydd chwarae ac mae wedi'i gyflwyno mewn mwy na 150 o ysgolion ar draws y DU eisoes.

Mae Little Troopers yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi plant sydd â rhieni sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.littletroopers.net a www.SSCECymru.co.uk

*Kate Cashmore*

---

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Euryn Ogwen



Brynhawn Mawrth, 16 Mawrth, daeth ergyd drom i'n rhan ni yma yn y Barri pan gyrhaeddodd y newyddion trist bod 'un ohonon ni' wedi colli'i frwydr ddewr yn erbyn y salwch creulon a oedd wedi'i flino ers peth amser. Er yr holl driniaethau ac ati, chlywais i yr un gair o gŵyn gan Euryn - 'Ddim yn ddrwg' oedd ei ymateb yn gyson i'r cwestiwn 'Sut mae pethau?'.

Roeddem ni drigolion y Barri yn freintiedig bod Euryn a'i deulu wedi dewis byw yma yn ein plith. Dros y blynyddoedd, byddai bob amser yn barod i gynnal noson yn ein cymdeithas Gymraeg - Cymdeithas y Cymrodorion - a byddem yn sicr o noson ddifyr ac adeiladol bob tro. Bydd eraill yn tystio i'w allu a'i weledigaeth a'r anrhydeddau a ddaeth i'w ran yn y byd darlledu ond fe'i clywson sawl tro dros y blynyddoedd yn ein hannog i dderbyn y byd digidol gyda breichiau agored ac i beidio ag ofni datblygiadau newydd. Roedd y byd darlledu yma yng Nghymru - ac yn yr Alban - yn ffodus i allu manteisio ar ei ddoniau a'i syniadau pellweledol.

Buom hefyd yn ffodus yng Nghapel y Tabernacl i gael ein tywys gan Euryn yr athronydd. O bryd i'w gilydd, yn absenoldeb ein Gweinidog, y Parch Kevin Davies, byddai Euryn bob amser yn barod i'n harwain mewn gwasanaeth, oedd yn ddieithriad yn addysgiadol ac yn fendithiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er ei salwch, ac er y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil COVID-19, cynhyrchodd oddeutu deugain o gerddi - a alwyd ganddo yn 'Cerddi'r Ynysu' - amrywiaeth o gerddi'n cynnwys emynau, englynion, cerddi cyfarch a cherddi coffa. Dyma ymateb i'r hyn a ddaeth i'n rhan ni i gyd gyda COVID-19, ac a oedd hefyd, yn ei eiriau ei hun, yn ymateb i fywyd cymdeithas ac aelodau eglwysi Tabernacl, y Barri a Bethel, Penarth sy'n ffurfio Gofalaeth Bro Morgannwg dan weinidogaeth y Parchg D. Kevin Davies. Cofleidiodd yr ofalaeth y syniad o eglwys ddigidol pan ddaeth yn amlwg y byddai'n rhaid dod â chyfarfodydd mewn capel i ben. Daeth e-byst, Facebook, YouTube a Zoom yr un mor gyfarwydd â festri capel fel mannau cyfarfod dros dro!

Does ond gobeithio y caiff y cerddi hyn eu casglu'n gyfrol a'u cyhoeddi - i ychwanegu at y gyfrol *Tywod a Sglodion* a gyhoeddwyd ganddo yn 2012.

Rydym yma yn y Barri wedi colli cyfaill annwyl oedd yn ŵr bonheddig hawddgar, cwrtais a mwyn. Ond er y golled rydyn ni'n ei theimlo, ei deulu sy'n diodde'r golled fwyaf, wrth gwrs. Mae ein cydymdeimlad llwyr ni gyda Jen, Sara a Rhodri yn eu galar a'u hiraeth. Gobeithio y bydd geiriau'r bardd Idwal Lloyd yn fodd i leddfu ychydig ar eu poen.

Diau rhan o'n daear ŷm,
Ychydig o lwch ydym,
I'r anfad a'r credadun
Mesur Duw yw amser dyn;
O bob gradd rhywbryd graddiwn
I'r unig radd a'r un grwn.

Cofier na roir y cyfan
Yn y blwch yn llwch y llan.
Bydd y cof yn boddi cur,
O hwn fe geisiwn gysur.
Try y llu adegau llon
Yn gyfoeth o atgofion;
Darn o hud o'r hyn a aeth
Ac sy'n aros yw'n hiraeth.

*Ann M. Jones*

## Denise Williams ymhlith tri i'w hurddo yn Gymrodyr i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Denise Williams o Gaerdydd, y Dr Iolo ap Gwynn o Aberystwyth ac Ieuan Wyn o Fethesda gafodd eu hurddo yn Gymrodyr er Anrhydedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn cyfarfod rhithwir o Gynulliad Blynyddol y Coleg ar 16 Mawrth 2021.

Fel rhan o Gynulliad Blynyddol y Coleg, fe urddir unigolion yn Gymrodyr er Anrhydedd er mwyn cydnabod eu cyfraniadau allweddol i addysg uwch cyfrwng-Cymraeg dros y blynyddoedd. Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 24 o unigolion wedi eu hurddo yn Gymrodyr gan gynnwys y diweddar Dr John Davies, y Dr Meredydd Evans a'r Athro Gwyn Thomas.

Bu Denise Williams yn Ddirprwy Gofrestrydd Academaidd ac yn Bennaeth ar Gofrestrfa'r Myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru (a Phrifysgol Morgannwg gynt) rhwng 2000 a 2013, lle bu'n gonglfaen i'r gwaith o sefydlu darpariaeth Gymraeg y brifysgol honno. Cyn hynny, bu'n gweithio i sefydliadau fel Coleg Brenhinol y Meddygon, a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm, cyn dychwelyd i Gymru a gweithio i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru ac yna ym maes addysg uwch.

Mae wedi cyfrannu yn benodol at dwf addysg Gymraeg yng Nghymru. Bu'n aelod o Fwrdd Rheoli'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (rhagflaenydd i'r Coleg); yn aelod o Fwrdd Gweithredol sefydlu'r Coleg Cymraeg (a gadeiriwyd gan Geraint Talfan Davies); yn aelod o Grŵp Ymgynghorol y Coleg, ac yn gadeirydd y Consortiwm Cyfieithu. Ers iddi ymddeol mae wedi ei phenodi i Bwyllgor Penodiadau'r Coleg Cymraeg. Mae'n parhau i fod yn weithgar wrth hybu twf addysg Gymraeg yng Nghymru, gan gadeirio a chyfrannu fel Llywodraethwr ar ysgolion yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain.

# NEGES O QATAR

## Lowri Haf Cooke yn holi Sybil Barr

*Mae Sybil Barr – sy'n wreiddiol o Riwbeina - yn ymgynghorydd meddygol ym maes newydd-enedigaeth, sy'n gweithio yn ninas Doha, Qatar. Mae hi'n byw yno gyda'i theulu – ei gŵr Roshan a'u tri o blant; Oliver (18), Sam (16) a Daisy (14).*

*Fe fuoch chi Sybil yn ymgynghorydd meddygol yn Llundain, Washington D.C. ac Ysbyty'r Waun cyn symud i Doha. Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r ffordd mae Qatar wedi ymateb i'r pandemig?*

Pan ddechreuodd y pandemig ym mis Mawrth 2020, ymateboodd Qatar yn gyflym ac yn llym iawn – cloiodd popeth i lawr yn syth. Fel yn y Deyrnas Unedig dim ond siopau bwyd oedd ar agor. Parhaodd y clo drwy'r haf – sefyllfa anodd iawn i bawb oherwydd yn Qatar mae'r haf yn grasboeth a doedd dim unman i gysgodi rhag yr haul tanbaid na dim byd i wneud! Undonnog iawn oedd bywyd drwy fisoedd yr haf. Ym mis Medi dechreuodd pethau agor a chawsom gyfnod gweddol sefydlog. Ond ers y Nadolig, mae pethau wedi gwaethygu eto ac rydyn ni nawr mewn cyfnod o 'glo rhannol'. Ond, dydy ein hail don ni ddim wedi bod yn agos at fod mor wael ag ail don y Deyrnas Unedig. Pan oedd y pandemig ar ei anterth yn Doha ym misoedd Ebrill a Mai 2020, roedd dros 1,500 o achosion newydd y dydd, wedyn ym mis Medi cafwyd gostyngiad, gydag ond tua 200 o achosion newydd bob dydd. Ond erbyn heddi, mae tua 600 o achosion newydd y dydd. Felly mae ein hail don ni wedi bod ond tua hanner cyn waethed â'r don gyntaf. Ond gobeithiwn fod yr haul ar y gorwel oherwydd dechreuodd y brechu ym mis Ionawr. Mae pawb yn cael Pfizer a thair wythnos yn union sydd rhwng y cyntaf a'r ail frechlyn. Bythefnos wedi i chi gael eich brechu, mae pobol yn rhydd i deithio a does dim rhaid hunan-ynysu wedi dychwelyd i Qatar, cyhyd â bod y prawf COVID-19 yn y maes awyr yn negyddol. Felly, yn y sefyllfa hon mae Qatar yn llawer mwy hyblyg a llac na'r Deyrnas Unedig. Amser a ddengys beth fydd yr effeithiau a'r canlyniadau o'r llacio hwn yn Qatar.

*Sut dechreuodd pethau newid i chi a'r teulu ar ddechrau'r pandemig?*

Rydyn ni wedi bod yma er Tachwedd 2017. Rydyn ni wedi setlo ac wedi gorfod cyfarwyddo â'r tywydd crasboeth, y ffaith nad oes tymhorau yma a'r penwythnos ffasiwn newydd sy'n cynnwys dydd Gwener a dydd Sadwrn; yn Doha, dydd Gwener yw ein dydd Sul ni adre! Hefyd nid 9-5 yw'r diwrnod gwaith ond 7-3 a'r ysgolion yn dechrau am 7 y bore ac yn gorffen am 1.20 pm. Hefyd roedd gennym y rhyddid i deithio – fi'n cofio dod 'nôl i Gaerdydd am benwythnos hir ym mis Ionawr 2020 a phopeth wedi mynd fel cloc ac yn hwylus dros ben. Ond yna daeth tro ar fyd! Y trobwynt mwyaf trawiadol ac arwyddocaol oedd yr un a ddigwyddodd ddechrau Mawrth 2020. Roedd Mam yn dod i aros atom. Hedfanodd hi o Gaerdydd, fel arfer, a phopeth yn iawn. Ond yn ystod y daith, caewyd y



ffiniau yn Qatar a gorfu i Mam ddychwelyd i Gymru y bore canlynol heb adael y maes awyr a heb weld yr un ohonom, er fy mod i yn y maes awyr, wedi mynd i'w chyfarfod hi! Wedi hynny wrth gwrs, aeth popeth o ddrwg i waeth.

*Beth yw patrwm arferol eich diwrnod fel teulu erbyn hyn?*

Wel, fel y dwedes i mae'r diwrnod gwaith yn dechrau am 7am ac yn gorffen am 3pm a'r ysgol o 7.00-1.20pm. Mae'n rhaid gyrru i bob man am nad oes trafnidiaeth gyhoeddus. Ond, yn ystod y misoedd diwethaf, agorwyd Metro Newydd (wedi ei adeiladu yn arbennig ar gyfer Cwpan Pêl-droed y Byd a gynhelir yma ym mis Rhagfyr 2022). Mae ein nosweithiau yn debyg iawn i adre, gyda'r plant yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau fel ymarfer rygbi, merlota, gwersi piano a thelyn. Pan ddaethon ni yma gyntaf roedd Daisy yn cael gwersi telyn gyda'r unig athrawes telyn yn Doha. Ond, yn anffodus, oherwydd y pandemig, gadawodd Doha a mynd adre i Ffrainc a nawr mae'r gwersi telyn ar-lein ond gyda Chymraes sy'n byw yn Llundain! Fel teulu, rydyn ni'n aelodau o gymnasiwm ond plis peidiwch â gofyn pa mor amal rydyn ni'n mynd! Does dim llawer o ddiwylliant yma e.e. bach iawn o theatrau a chanolfannau cyngherddau sydd yma. Y 'shopping malls' yw'r canolfannau hamdden ac maen nhw'n cynnwys sinemâu, bowlio deg, sglefrio, camlesi a hyd yn oed ffair bleser. Does dim tafarndai a 'mynd am beint' – y gwestai crand pum seren yw'r unig fannau lle gellwch yfed alcohol.

*Beth yw eich barn ar y sefyllfa ar hyn o bryd?*

Ar hyn o bryd, y peth sy'n bwysig yw trio cadw mor optimistig ag y bo modd a cheisio edrych ar yr ochor orau o bopeth. Ond mae hyn yn anodd o dan yr amgylchiadau e.e. dwi ddim wedi gweld Mam am flwyddyn! Rydyn ni wedi colli llawer o'r manteision o fyw tramor fel gallu teithio'n lleol e.e. mynd i Oman, i'r Iorddonen neu i'r Maldives. A does dim modd dod adre am benwythnos! Hefyd, mae'n gyfnod ansicir a phryderus mewn byd addysg – mae'r tri phlentyn sy gen i ym mlynyddoedd 10, 12 a 13. Beth yw'r dyfodol iddyn nhw 'sgwni? Ond, mae'n rhaid palu mlan ac edrych i'r dyfodol! Cael y brechlyn yw'r dyfodol gobeithio – rydw i newydd gael fy un cyntaf i! Ac, yn y cyfamser, fy mantra i fydd 'byw un dydd ar y tro'.

*Beth oedd y sioc fwyaf i chi yn sgil y pandemig?*

Y sioc fwyaf oedd colli ein rhyddid i ddilyn gweithgareddau bob dydd, ond, yn bennaf, colli ein rhyddid i deithio fel y bydden ni yn dymuno. Pan ry' chi'n byw mewn gwlad dramor, yr hyn sy'n hwylus ac sy'n eich cadw chi i fynd yw gallu dod adref yn aml ac yn hwylus – pan nad yw hynny'n bosib, mae'r wlad dramor yn teimlo ychydig bach fel carchar! Y peth da, wrth gwrs, yw ein bod wedi treulio llawer mwy o amser fel teulu yng nghwmni ein gilydd. Rydym wedi chwarae gemau gyda'n gilydd, wedi gwylio cyfresi teledu fel teulu – yr un diweddara oedd *The Pembrokeshire Murders*. Hefyd, ysbardunodd gwylio *The Queen's Gambit* ar Netflix ni i ddysgu chwarae gwyddbwyll! Hefyd gobeithiaf bod y plant wedi dysgu sut i ddefnyddio'r peiriant golchi a sut i ferwi wy! Credaf mai'r wers ry' ni gyd wedi ei dysgu yw, inni barchu ein cyd-ddyn, ein teuluoedd a'n hiechyd ac, yn bennaf, i werthfawrogi ein rhyddid. Hefyd, mae'n rhaid peidio â chymryd unrhywbeth nac unrhyw berson yn ganiatаol. Mae bywyd yn fregus!

*Oes gyda chi neges i ddarllenwyr Y Dinesydd?*

Mae gen i ddwy neges – dwi'n annog pawb i gael y brechlyn oherwydd credaf mai dyma'r unig ffordd mas o'r pandemig difrifol hwn. Ond, yn bwysicach fyth, anogaf ein gwleidyddion i rannu'r brechlyn ac i wneud yn siŵr fod poblogaethau gwledydd tlotaf y byd ac, yn wir, pob gwlad yn y byd, yn cael eu pigiad. Ateb tymor byr fydd brechu poblogaethau rhai gwledydd – mae'n hanfodol brechu pawb o boblogaethau'r byd ac yn fwy hanfodol fyth i gael ateb tymor hir.

## Persbectif ar y Papurau Bro

Y peth pwysicaf i'w ddweud yn syth yw bod ein papurau bro wedi gwneud cyfraniad aruthrol o bwysig dros y blynyddoedd, ac yn dal i wneud. Darparu newyddion a rhannu gwybodaeth yn deg ac yn gyfrifol yw hanfod y busnes. Ac mae'r busnes hwnnw yn fwy gwerthfawr nag erioed.

Dros y blynyddoedd, bu ambell newyddiadurwr yn snobyddlyd iawn o ran newyddion lleol. Peth afiach yw hynny. Mae newyddion o bob math yn gallu bod yn bwysig neu'n ddiddorol neu'n ddefnyddiol, boed leol ai peidio. Mae deunydd newyddion yn cynnwys sbectrwm eang iawn o weithgarwch a gwybodaeth.

Cofiaf yn glir yr adeg pan sylweddolais beth yw gwerth newyddion bro. Ym mis Medi 1974 roedd cyffro mawr yn ardal dwyrain Caerfyrddin a gorllewin Morgannwg. Roeddem yn aros am lansiad radio masnachol cyntaf Cymru, sef Sain Abertawe. Digwyddiad o bwys oedd hwnnw, nid yn unig i'r gymuned leol, ond yn sicr hefyd i bobol fel fi a'u diléit yn y maes darlledu a newyddiadura. Gwasanaeth dwyieithog a gafwyd, a hynny yn orfodaeth arnynt oherwydd balans ieithyddol y dalgylch. Roedd mwyafrif y rhaglenni yn Saesneg, wrth gwrs, gyda bwletinau newyddion yn Gymraeg yn ystod y dydd, a rhaglenni Cymraeg gyda'r nos. Pwysigrwydd y lansiad oedd bod pobl ddim yn gaeth bellach i wasanaethau BBC Cymru a HTV Cymru. Bu'r orsaf newydd yn ysgubol o lwyddiannus, a rhan o'r gyfrinach oedd mentro i mewn i fywydau pobl yn yr ardal a cheisio deall beth oedd yn eu diddori a'u plesio a'u cythruddo.

Ym 1977 ymddangosodd Radio Cymru, a Radio Wales y flwyddyn ganlynol. Ceid elfennau lleol yn y gwasanaethau hynny, ond gorsafoedd cenedlaethol yw'r ddwy, a'u pwrpas yn wahanol iawn i Sain Abertawe.

Roedd y papur bro cyntaf - *Y Dinesydd* - eisoes wedi cyrraedd ym 1973, gan lansio cyfnod o dwf cyffrous. I mi, profwyd yn syth bod newyddion ar lefel leol yn beth gwerthfawr iawn o safbwynt cynnal cymuned, gan alluogi pobl i rannu gwybodaeth a rhannu straeon. Heb wasanaeth felly, mae cymunedau yn gallu bod yn ddigyswllt a rhanedig. Mae papurau bro yn hanfodol bwysig o ran dal cymunedau ynghyd.

Dylid nodi'n syth bod papurau lleol Cymru wedi cynnig rhywfaint o Gymraeg dros y degawdau. Roedd y *Llanelli Star* â'i golofn Gymraeg (symbolaidd) bob dydd Sadwrn. Ond yn rhy aml yr hyn a geid oedd darn ar farddoniaeth (sori, dim diddordeb) neu hanes rhyw bregethwr (cynffonllyd, fel arfer) neu rywbeth arall cwbl amherthnasol. A dyna un o'r ffactorau yn llwyddiant y papurau bro, oherwydd y bwlch enfawr yn y farchnad, y farchnad newyddion go iawn i Gymry Cymraeg. Gwasanaeth cymdeithasol nodweddiadol, felly, yw papurau bro, gan gynnig llwyfan i bobl i ddweud eu dweud, i rannu straeon, i apelio, i ofyn am gymorth, i rybuddio, i ddathlu – y cyfan yn rhan o'r broses bwysig o newyddiadura, sef chwilio am bethau diddorol, a chwilio am bethau nad yw pobol yn gwybod amdanynt. Mae'n bwysig hefyd o ran democratiaeth.

Mae problem o safbwynt cael ffocws clir iawn ar waith awdurdodau lleol a chynghorwyr, a rhai cyrff cyhoeddus sy'n llai atebol nag y dylent fod. O ran iechyd democratiaeth leol, mae'r papurau bro yn gryfder, gan sôn am broblemau lleol fel cynllunio, tai, a pholisi iaith. Bellach mae nifer o'r papurau bro ar-lein, ac mae modd iddynt gyrraedd eu cynulleidfaoedd ar draws y byd. Bu dyfodiad gwefan BBC Cymru Fyw yn gam enfawr ymlaen inni Gymry Cymraeg. Cawn ganddo gyfuniad o'r rhyngwladol, y cenedlaethol a'r lleol.

Mae S4C yn datblygu ei gwasanaeth newyddion ei hun ar-lein ar hyn o bryd, sef carreg filltir arall. Dylem weld y datblygiadau hyn yng nghyd-destun y byd newyddion ehangach. Gallwn weld byd o gyfryngau sy'n cynnig mwy o ddewis i Gymry Cymraeg, mwy o ffocws, mwy o gwestiynu, a mwy o gyfuno rhwng y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol.

Mater arall yw gofyn a oes gan y papurau bro adnoddau digonol i ateb yr her. Mae angen adnoddau dynol, technegol ac ariannol i ddatblygu cyhoeddiadau ar-lein yn broffesiynol, a'r gallu hefyd i wirio'r cynnwys yn ofalus. Mae'r gwaith presennol ym myd y papurau bro yn arwrol, ond bydd eisiau mwy o gefnogaeth er mwyn i'r sector flodeuo a thyfu i fod yn rhywbeth hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol. Llongyfarchion i bawb ar y gwaith rhagorol. Ymlaen!

*Huw Edwards*

# Colofn Hannah



*"Mae meddygaeth llysieuol wedi ca'l ei ddatblygu gan ddyn ers miloedd o flinydde"*

**Meddygon Myddfai**

Mae'n amser brecwast 'to! Ma fel ta' hwnnw yn dicwdd tair gwaith y dydd nawr, mae e'n dod rownd mor gloi. Wel, o'm mla'n i ma pot marmalêd byrnes i ym Myddfai, ar ôl bod yn y gynhadledd flynyddol, sy'n amal yn cyfeirio at y Meddygon. Wel ie, y Meddygon Myddfai enwog a ddaethant o'r lle bach hwnnw.

Ma hanes am feddygon ym Myddfai ers y drydedd ganrif a ddeg, ar wahân i stori Llyn y Fan, sy'n lot iau, a ma stori debyg miwn ll'wer gwlad arall.

Ma'r defnydd o blanhigion ym myd meddygaeth, h.y. meddygaeth llysieuol, wedi ca'l ei ddatblygu gan ddyn ers miloedd o flinydde, fel 'da Meddygon Myddfai. A ma'r traddodiad yn 'mestyn nôl bron wyth canrif. Ma'r cofnod cynta' sy' 'da ni am y teulu 'ma yn mynd nôl i'r adeg pan o'dd Rhiwallon feddyg a'i feibion, Cadwgan, Gruffudd ac Einion, yn feddygon i Rhys Grug, Arglwydd Dinefwr a Thywysog Deheubarth.

Yn ôl cofnodion, nethon nhw drin y tywysog pan gas e ei glwyfo miwn brwydr ar bwys Ca'fyrddin yn 1234. Aflwyddiannus o'dd hwnnw, gan i'r Tywysog farw o'i glwyfe yn Llandilo.

Un o ddisgynyddion y meddygon o'dd y Dr Morgan Owen, esgob Llandaf ym 1645, a'r olaf o'r llinach o'dd y Dr Rice Williams, Aberystwyth, fu farw ym 1842.

Ma'r meddyginiaethe yn mynd nôl withe i gyfnod Hywel Dda, ac uchelwr o Ynystawe ger Treforys o'dd wedi comisiynu casglu'r llawysgrife llysieuol 'ma, a'u cynnwys yn Llyfr Coch Hergest, sy' nawr yn eiddo Coleg yr Iesu Rhydychen. 'W i wedi crybwyll o'r bla'n ei fod wedi bod yn Ynystawe am gyfnod hir cyn ei symud i Hergest - llyfr Coch Ynystawe ddyle fe fod!

Yn yr Ardd Fotaneg ma gardd i'r meddygon; clywn nawr am rai o'r planhigion sy' yno, a'r meddyginiaethau sy'n gysylltiedig â nhw.

*Cyn defnyddio'r planhigion 'ma RHAID gwpod shwt i 'neud y defnydd cywir ohonynt.*

*Llysiau Cadwgan* (valerian) sy'n help i gysgu; gellid pyrnu tabledi 'valerian' yn y siop iechyd. Hefyd o'dd hi'n arferiad 'neud sugaethan (powltis) ohono ar gyfer y ffelwm, ne whitlow - crynhoad cas ar y bys – drwy ei ferwi a'i gymysgu a gwêr cannw'll.

*Hen Ŵr* (southernwood) Enw'r meddygon arno o'dd *Llysiau'r Corff.* O'n nhw yn gweud 'i fod yn dda "i'r sawl a fo yn dywedyd yn ei gwsg". Wetyn, os y'ch chi'n clywed cyfrinache wrth y'ch partner yn ei gwsg, peidwch rhoi hwn iddo fe!

Ma Crwys yn ei enwi yn 'Y Border Bach'*:*

Dwy neu dair briallen ffel
A daffodil bid siŵr,
Y cyfan yn y border bach
Dan ofal rhyw hen ŵr.

Enw Isfoel arno fe o'dd "Shili-Ga-Bŵd":

Roedd llwyn bach gan Mam hyd y diwedd
Heb arno na blodyn na chnwd,
Un difalch a hollol werinol
A alwai yn Shili-ga-bwd.

Ma hwn yn dda i dynnu "splinter" o'r cro'n; peth arall at hynny yw y cro'n sy tu fiwn i fashgal wy.

*Golwg Crist* (eyebright) - blotyn bach porffor a smotyn melyn llachar yn ei genol; meddyginiaeth at y llicad, llosg llicad ne' 'conjunctivitis'. Ys dwad hen ddywetiad "O iwso'r blotyn ma gyment a ma e'n ca'l ei esgeuluso, bydde fe'n doti'r optegydd mas o waith". Ei ferwi 'da *fennel,* a'i hidlo drwy liain a "golch dy licad yn feunyddiol.

*Llydan Y Ffordd* (plantain) - defnyddiwyd hwn i atal cwt rhag gwaedu; gwe pry cop o'dd ateb Mangu, brofes i effeithiolrwydd hwnnw. O'dd ffermwyr yn ei ddefnyddio i weld beth o'dd y tebycrwydd o dân miwn tas wair. Os o'dd y dail yn torri'n rhwydd yn yr haf, o'dd hi'n fwy tebycol y bydde tane yn y das - yr enw Sisneg amdano yw 'fire-weed'.

Enw pert arall yw *Sawdl Crist.* Blotyn hir sy' i hwn fel brwynen, a deilen lydan fel sawdl. Pan yn blant, o'n i'n ware gêm gyta'r planhigyn 'ma, whare 'Pistols'. Torri'r coesyn hir, a'i droi e rownd y pen a thynnu'n galed nes bod y pen yn tasgu bant.

*Cwmffri* (Comfrey) - 'sech chi yn torri asgwrn yn amser y meddygon, hwn fydde'r ateb. Berwi'r gwreiddyn a'i roi ar y go's ne'r fraich, a fydde fe'n caleti fel *Plaster of Paris* - ma cemegyn yndo fe o'r enw *allantoin*, sy'n help i 'neud celloedd newydd i wella'r asgwrn. Yr enw Sisneg yw 'Knitbone'*,* a'r Lladin, 'Symphytum' - grow together plant.

*Y Cyngaw* (Burdock) – a be sy'n dwad i'r meddwl? Pop, Dandelion and Burdock. Hwn i fod yn dda at 'eczema'. Ma dannedd bach ar hwn sy'n citsho yn y dillad; hwn roiodd y syniad i'r boi a greodd 'Velcro'. Ma Shakespeare yn doti'r geire ma yng ngheg Celia yn *As you Like It* - "If we walk not on the trodden paths our very petticoats will catch them". Natur yn rhoi syniad i ffasiwn yn ogystal â meddyginiaeth. Ma cyment o atebion i'n anhwyldere ni o'n cwmpas ni a ni'n eu sathru dan dra'd!

Un arall o blanhigion Myddfai o'dd *Seren y Mynydd* (Scilla), ar gyfer y frest, a heddi, ma cyffuriau ar gyfer TB yn dod o'r planhigyn. Ateb arall, yn ôl y meddygon at annwyd ar y frest o'dd - chi'n barod am hyn? Mynd

mas yn gynnar yn y bore, a whilo dom da, ma pwll bach yn cronni yn ei genol e, wel - yfed hwnnw! Symudwn ni mla'n yn gloi!!

*Clatsh y Cŵn, ne Menyg Mair, ne Gwiniater Mair* (Digitalis) - defnyddio hwn at glefyd y galon heddi. Yr *helygen* sy'n cynnwys salicin sy' mewn asbirin. O'r *ywen* y daw y cyffur tamoxiphen. Nawr ma glud, ne resin yr ywen yn wenwynig, dyna pham, medde nhw, bod hwn yn tyfu mewn mynwentydd eglwysi, am fod wal yr eclws o'u gwmpas, ac yn lleihau'r risg ei fod yn dod i gysylltiad â phobol.

Wel dyna fe, Meddygon Myddfai, a'u holl blanhigion, a'u rhinweddau. Mwy mewn mish - iechyd da.

# Cymrodorion Caerdydd

Unwaith eto, cyfarfod rhithwir drwy gyfrwng Zoom a gynhaliwyd nos Wener 12 Mawrth gan Gymrodorion Caerdydd. Diolch i'r Parch. Dyfrig Lloyd am lywio'r ochr dechnegol yn effeithiol.

Y siaradwr oedd Alun Ffred Jones. Wrth ei gyflwyno cyfeiriodd y Llywydd, Alwyn Evans, at ei yrfa amrywiol a diddorol. Bu'n athro ysgol, yn gynhyrchydd gyda Ffilmiau'r Nant ac yn ohebydd, ond bellach fel gwleidydd y meddylir amdano yn bennaf mae'n debyg. Mae'n gyn-Aelod o Senedd Cymru, lle gwasanaethodd fel Gweinidog Treftadaeth yn llywodraeth clymblaid Cymru'n Un. Cafodd y Cymrodorion anerchiad ganddo yn rhinwedd y swydd honno ym mis Mawrth 2010. Ef yw Cadeirydd presennol Plaid Cymru.

Bywyd a gwaith y dramodydd Wil Sam (William Samuel Jones,1920-2007) oedd dan sylw Ffred. Yn frodor o Lanystumdwy ger Cricieth, yn ei ddyddiau cynnar fel mecanic y gweithiai, ond yn y 60au rhoddodd y gorau i'r garej a mentro fel awdur a dramodydd amser llawn. Y dyddiau hynny yr oedd yn benderfyniad dewr, un a wnaed hefyd gan Islwyn Ffowc Elis o'i flaen.

Comedïau yw ei ddramâu, a nodweddir deialog ei gymeriadau gan ffraethineb ac iaith lafar frith gwerin Eifionydd - cofier iaith Ifans y Tryc - ond mae iddynt dristwch a miniogrwydd sydd wedi peri i rai ganfod symbolau dan yr wyneb. Yr elfen yma, meddai Ffred, sydd wedi arwain beirniaid i weld dylanwad theatr yr abswrd, a oedd mewn bri yn y 60au, ar ei waith. Ond yn y drafodaeth a ddilynodd dywedodd yr actiwr John Pierce Jones mai gwadu hynny a wnâi Wil Sam. Credai ef mai dylanwad pwysig ar Wil Sam oedd y dramodwyr Gwyddelig yr hoffai fynd i weld eu gwaith yn yr Abbey yn Nulun.

Yn y gynulleidfa Zoom yr oedd Dora, gweddw Wil Sam, a'u merch Mair, a phleser o'r mwyaf oedd cael eu gweld a'u cyfarch.

*Gwynn Matthews*

## Arian y Loteri Genedlaethol i helpu cymunedau Cymru addasu ac adfer

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau drwy COVID-19. Mae grantiau wedi cael eu hehangu i helpu cymunedau ledled Cymru i edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol.

Ers mis Ebrill 2020, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu dros £20 miliwn i elusennau a chymunedau ledled Cymru sy'n newid bywydau ac yn cynnig gobaith i lawer o'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig. Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU.

Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnal sesiwn gymorth rithwir drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau ar 26 Mai. Bydd y sesiwn yn rhoi mwy o wybodaeth i gymunedau ledled Cymru am wneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol ac yn atgyfnerthu'r blaenoriaethau ariannu newydd. Maen nhw'n arbennig o awyddus i siarad â grwpiau cymunedol nad ydynt wedi gwneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol o'r blaen.

Mae grantiau, sy'n bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ar gael i gefnogi sefydliadau i addasu, adfer a ffynnu drwy raglenni Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a Pawb a'i Le. Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i bandemig COVID-19. Mae Pawb a'i Le yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau i gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ariannu datblygiad sefydliadol fel rhan o'r prosiect ac mae Gwiriwr Cryfderau wedi'i ddatblygu i helpu cwsmeriaid i nodi cryfderau eu cymuned er mwyn adeiladu arnynt.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiwn rithwir ddydd Mercher, 26 Mai, cysylltwch â fflur.davies@cronfagymunedolylg.org.uk. Ewch i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: http://cronfagymunedolylg.org.uk/cymru




# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 15, daeth Zoom ag anrheg arall inni wrth i'r Athro Arwyn Tomos Jones o Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd ddod i siarad â ni am "COVID-19: Dysgu gwersi gan y Cnaf Nano." Dechreuodd Arwyn drwy ddangos lledaeniad brawychus y feirws ar fapiau Prifysgol Johns Hopkins yn Baltimore. Yna cawsom ychydig o hanes teuluol y feirws yma. Bathwyd y term "coronavirus" yn 1968 ar ôl i'r lluniau cyntaf o'r feirws gael eu tynnu gan ficrosgop electron gan ddatgelu siâp coron.

Cawsom wedyn esboniad o sut mae ein celloedd yn gweithio, yn benodol sut mae celloedd yn cynhyrchu proteinau drwy ddefnyddio cemegyn tebyg i DNA o'r enw RNA, yn benodol yr RNA negeseuol a elwir yn mRNA. Esboniodd Arwyn fel gall diffygion mewn ychydig iawn o'r proteinau a gynhyrchir yn y gell achosi clefydau fel ffibrosis cystig. Er mwyn gwella clefydau fel hyn, mae'n rhaid anfon sylweddau i mewn i gnewyllyn y gell i annog y gell i gynhyrchu'r proteinau cywir; therapi genynnol yw hwn ac mae wedi bod yn destun sawl astudiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dyma ni yn dod nôl i COVID-19 a'r brechlynnau. Mae brechlynnau Pfizer ac AstraZeneca yn cludo RNA negeseuol i mewn i rai o'n celloedd ac yn dysgu'r gell i gynhyrchu protein sy'n rhan o'r feirws COVID-19. Nid yw'r feirws cyfan yn cael ei gynhyrchu, ond mae system imiwnedd y corff yn deffro i'r protein yma, ac yn ei ddifa; bydd yr un peth yn digwydd i'r feirws os daw gan fod y system imiwnedd bellach yn ei adnabod. Gorffennodd Arwyn gan ragweld y bydd yr holl ymchwil a thechnegau newydd rydym yn eu datblygu i ymladd COVID-19 yn caniatáu inni drin nifer o glefydau, gan gynnwys cancr, mewn ffyrdd mwy effeithiol. Dyma ddysgu gwersi gwerthfawr gan y cnaf nano arbennig hwn.

*Rhys Morris*



# Carreg filltir hanesyddol ar gyfer twristiaeth yn Ne Cymru

Mae Zip World, y cwmni antur y tu ôl i'r wifren wib gyflymaf yn y byd, wedi cyhoeddi y bydd ei safle newydd yn Ne Cymru, Zip World Tower,  yn agor i ymwelwyr ar 22 Ebrill.

Hwn fydd safle cynta'r cwmni y tu allan i Ogledd Cymru, a Rhigos fydd cartref un o leoliadau antur awyr agored mwyaf trawiadol y DU. Mae'r safle, sy'n cael ei lansio gyda dau brofiad newydd, sef Zip World Phoenix a Big Red, wedi cael ei ddylunio i greu gwaddol parhaol i'w dreftadaeth gloddio sydd â gwreiddiau mor ddwfn yn yr ardal.

Mae'n swyddogol mai Zip World Phoenix yw'r wifren wib ar eich eistedd gyflymaf yn y byd, gyda phedair llinell gyfochrog mewn dau barth zip ar wahân. Dewiswyd yr enw fel ffordd o gydnabod adferiad y safle hanesyddol, fel ffenics yn codi o'r llwch.

Ac mae Big Red yno i'r rhai lleiaf sy'n chwilio am wefr – y wifren wib symudol fwyaf yn y byd – sy'n caniatáu i blant reidio ochr yn ochr â'i gilydd ar wifren wib 270 troedfedd o hyd!

Cyn bo hir bydd y Tower Coaster i'w weld yn ei holl ogoniant pan fydd yn cael ei agor yn swyddogol ddiwedd mis Mai. Y llwybr tobogan ochr yn ochr cyffrous hwn fydd yr unig un o'i fath yn Ewrop.

Wedi'i leoli ym mynyddoedd eiconig y Rhigos gyda golygfeydd godidog sy'n edrych dros dirweddau hardd Cymru, gan gynnwys Bannau Brycheiniog, mae safle Pwll Glo'r Tower yn gyforiog o hanes.

Cyn ei gau yn 2008, hwn oedd y pwll glo dwfn hynaf oedd yn dal i weithio'n barhaus yn y DU. Daeth yn symbol pwerus o wrthsafiad y glowyr yn y 1980au, wrth i weithwyr fuddsoddi eu harian eu hunain o daliadau diswyddo er mwyn achub y pwll glo rhag cael ei gau tan 1994.

Amcangyfrifir y bydd Zip World Tower yn creu 50 o swyddi yn ardal y Rhigos i ddechrau, a bydd y ffigwr hwn yn cynyddu wrth i'r safle ddatblygu.  Amcangyfrifir y bydd 100,000 o ymwelwyr yn ymweld â'r safle yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd yn weithredol, a chyfyngiadau'r pandemig ar ben.

Cewch archebu eich tocynnau nawr ar: https://www.zipworld.co.uk/vouchers/buy

# Dod â'r Gymraeg i aelwydydd dwyieithog yn ystod y cyfnod clo

Mae cwmni teganau Cymraeg cyntaf Cymru, Si-lwli Cymru, yn gobeithio bod yn gymorth i rieni di-Gymraeg ac aelwydydd dwyieithog yn ystod cyfnodau clo COVID-19.

Sefydlodd Awena Walkden a'i gŵr gwmni Si-lwli Cymru yn 2016 i fynd i'r afael â sterics amser gwely.

"Roedd fy merch, Cadi, yn cael trafferth cwympo i gysgu, ac fe wnaethon ni ddyfeisio Seren Swynol, tegan sy'n canu hwiangerddi Cymraeg. Fe aethon ni ymlaen wedyn i ddyfeisio Draigi ar gyfer fy mab Mabon, sef draig goch sy'n canu caneuon byd rygbi Cymru; o Sosban Fach i Calon Lân! Doedden ni ddim wedi bwriadu i'r peth fynd ymhellach na'n pedair wal ni. Mi sefydlon ni gwmni heb drïo!!

Sefydlwyd Si-lwli Cymru oherwydd anghenion y teulu, ond fe welai Awena bod diffyg teganau Cymraeg a Chymreig yn anfantais fawr i'r iaith. Yn ôl Awena,

"Mae ein teganau yn wych ar gyfer rhieni di-Gymraeg. Mae nhw'n cyflwyno'r Gymraeg i gartrefi mewn ffordd hwylus. Mae'r teganau sy'n canu yn helpu plant gyda sgiliau allweddol iaith. Maent yn clywed tôn yr iaith, a'r ffordd mae'r llythrennau'n gael eu hynganu."

*Osian Owen*

# Merched y Wawr Y Felin

Roedd yn bleser cael croesawu'r Athro Emerita, y Dr Sioned Davies, pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Cymru i'n plith.


Cawsom ein hatgoffa taw awduron o ddynion sydd wedi sgrifennu'r rhan fwyaf o'n llenyddiaeth a'n hanes am mai nhw oedd yn derbyn addysg yn y gorffennol ac ychydig iawn o le i ferched sydd yn eu gwaith.

Storïau llafar oedd y rhain yn wreiddiol. Byddai'r storïwr neu'r cyfarwydd yn dangos ei grefft perfformio o flaen y gynulleidfa a hwythau'n dysgu drwy wrando. Yna cafwyd llawysgrifau.

Un awdur anhysbys oedd i'r Pedair Cainc a llinell gyntaf y storïau gafodd eu mabwysiadu i fod yn deitlau arnynt. Serch hynny, pan gyfieithodd Lady Charlotte Guest y ceinciau i'r Saesneg, er mai Bendigeidfran oedd yn cael ei enwi yn y llinell gyntaf, penderfynodd gynnwys enw Branwen yn nheitl yr ail gainc "Branwen ferch Llŷr". Tynnodd sylw at bwysigrwydd y ferch hon wrth uno Iwerddon a Chymru felly.

Storïau am yr uchelwyr yw'r ceinciau ac roedd statws uchel teulu'r ferch yn holl bwysig. Cawn gip ar agweddau canoloesol tuag at y ferch. Statws ddibynnol ar ddyn oedd ganddi, sef yn ferch i'w thad neu yn wraig i'w gŵr. Ymddangos fydden nhw wrth iddyn nhw ddod wyneb yn wyneb â rhywioldeb gwrywaidd e.e roedd Rhiannon yn cael ei rhoi i Gwawl yn erbyn ei hewyllys, a doedd Blodeuwedd ddim yn bodoli nes i ddyn ei chreu.


*Y gusan*


*Llawysgrif Branwen*

Byddai prif nodweddion merch dda yn cael eu rhestru ac roedd moesoldeb yn bwysig iawn. Byddai disgwyl i ferched fod yn ffrwythlon ac i roi genedigaeth i fechgyn, ond byddai gwarth ar y teulu petai genedigaeth y tu alla i'r gyfraith. Roedd y cosbau a'r taliadau yn cyd-fynd â chyfraith canoloesol Hywel Dda. Awgrymodd Sioned bod llun y gusan o un o lawysgrifau Hywel Dda yn bornograffi Cymraeg cynnar iawn!

Gorffennodd Sioned drwy ddweud bod y storïau yn dangos y naill yn dibynnu ar y llall mewn uniad a bod rhaid parchu ei gilydd er mwyn byw yn llwyddiannus. Mae'r neges hon yr un mor bwysig heddiw.

Llyfrau sydd wedi ei cyhoeddi gan y Dr Sioned Davies: *Crefft y Cyfarwydd*; *Pedair Cainc y Mabinogi* a chyfieithiad newydd Saesneg o'r Mabinogion.

Cyfarfod nesaf Cangen y Felin: 15 Ebrill gyda Dylan Foster Evans yn siarad am *Enwau Lleoedd.*

*Mair Tomos*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



## Iolo Morganwg a Cherdd yr Eos ar Lan Elái

Cymeriad cymhleth oedd Iolo Morganwg, a dweud y lleiaf! Fel yr awgrymais yn y golofn hon yn rhifyn 449 (Gorffennaf 2020), er bod hedyn o wir yn achos llawer o'r pethau yr honnai amdano ef ei hun ac am hanes a diwylliant Cymru, rhaid cymryd popeth a ddywed Iolo â phinsied go fawr o halen, os nad oes tystiolaeth ar gael yn annibynnol ar eiriau Iolo ei hun ynghylch ei honiadau. Fel y dywedodd ei wraig, druan, 'codi cestyll yn yr awyr' a wnâi Iolo byth a hefyd.

Un o'r pethau trawiadol am y diddordeb brwd yn Iolo Morganwg a welwyd yn ein dyddiau ni yw'r sylw mawr iddo, a'r dyrchafu mawr arno, fel radical gwleidyddol a diwygiwr cymdeithasol. Mae hynny'n rhoi camargraff, braidd, oherwydd er pwysiced cyfraniad Iolo i'n 'dychymyg cenedlaethol' – yn enwedig trwy'r greadigaeth liwgar honno o'i eiddo, 'Gorsedd Beirdd Ynys Prydain' – digon tila fu ei ddylanwad ar dwf radicaliaeth yng Nghymru yn ystod ei oes ei hun, ac ar hyd y can mlynedd wedi ei farwolaeth yn 1826.

Yn fwy na hynny, fel y nodais yn fy ngholofn yn rhifyn Gorffennaf 2020, digon anwadal ydoedd Iolo o ran ei ddaliadau radicalaidd. Dyma, wedi'r cyfan, yr heddychwr mawr a ganai glodydd y 'Glamorgan Volunteers'; y gwrthfrenhinwr pybyr a gyflwynodd ei gyfrol o farddoniaeth Saesneg i Dywysog Cymru; a'r un ffyrnig ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth a ddywedai'n bendant na dderbyniai'r un geiniog gan ei frodyr a gadwai gaethweision yn Jamaica, am mai 'gwerth gwaed' ydoedd, ond a aeth i'r gyfraith er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn arian o ewyllys un o'r brodyr hynny.

Ond peth arall sy'n drawiadol am y diddordeb yn Iolo yn ein dyddiau ni yw cyn lleied, yn gymharol, o sylw sydd wedi ei roi i'w farddoniaeth, ac i'w farddoniaeth Gymraeg yn arbennig, oherwydd yn fy marn i, dyna o bosibl ei gyfraniad mwyaf arhosol. Mae'n wir fod y cyfraniad hwnnw wedi ei gymylu gan y ffaith fod llawer o'r darnau barddoniaeth a luniodd yn ffugio bod yn waith rhywrai eraill, ond o dan y ffugenwau hynny fe orwedd corff gwych o farddoniaeth gaeth a rhydd sy'n gosod Iolo yn uchel yn ffurfafen barddoniaeth Gymraeg y canrifoedd.

Campwaith mwyaf dychymyg Iolo oedd nid y cerddi 'ffug' unigol hyn yn gymaint â'r cyfanfyd yr oeddynt yn rhan ohono, sef (yng ngeiriau'r Athro Bobi Jones yn *Llais Llyfrau*, Gwanwyn 1980), y 'greadigaeth ryfeddol honno o Forgannwg ramantus a gorlawn, y dangosodd G. J. Williams iddo'i lledrithio'. Ac fel y dywed Bobi Jones, pe bai'r Forgannwg hudol ac ysblennydd honno yn wir yn hytrach nag yn greadigaeth ei ddychymyg disglair o wyrgam, 'fe grebachai'n syniad ni am fawredd Iolo fel ffigur llenyddol gryn dipyn: fe gollai'i le fel bardd seciwlar mwyaf y ddeunawfed ganrif, a gorfod ildio llawer o'i ganu caeth gloyw a'i ganu rhydd cyfareddol i feirdd eraill.'

Ategir barn Bobi Jones gan Patrick J. Donovan, yr ysgolhaig o Bort Talbot a fu am flynyddoedd yn un o Olygyddion *Geiriadur Prifysgol Cymru*, oherwydd dywed ef yn ei ragymadrodd i'w olygiad o gerddi rhydd Iolo: 'Pe bai'r cerddi hyfryd hyn yn perthyn i feirdd Morgannwg, byddai traddodiad o ganu rhydd godidog iawn yn perthyn i'r sir honno. Gwyddom nad felly y bu hi, ond o'r hyn lleiaf gallwn ni o Forgannwg ymffrostio yn y ffaith fod gennym, […] yn Iolo Morganwg, un o feirdd meistrolgar y canu rhydd.'

Byddai'n dda iawn gweld cyhoeddi casgliad cyflawn o gerddi Cymraeg Iolo – ac eithrio ei 3,000 o emynau undodaidd, sy'n ddigon di-fflach at ei gilydd. Barn W. Rhys Nicholas – awdur yr emyn mawr 'Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw' ac un a fu'n byw am flynyddoedd ym Mro Morgannwg gan ddod yn awdurdod ar emynwyr y Fro – oedd bod emynau Iolo yn 'aml yn amddifad o wir eneiniad a naws addoli' ac yn amddifad hefyd o'r dyfnder profiad a'r chwaeth artistig a'r angerdd a nodweddai emynau Thomas William, Bethesda'r Fro, a John Williams, Sain Tathan, cymdogion Methodistaidd Iolo yn y Fro – a gwir a ddywedodd!

Ond bid a fo am hynny, rydym yn fawr ein dyled i Patrick Donovan am ei waith yn nithio'r gwir oddi wrth y gau yn y gyfrol *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg* (1980), er mwyn inni allu mwynhau'r corff hynod o ganu rhydd Cymraeg o waith Iolo yr oedd Iolo ei hun wedi ceisio ei dadogi ar feirdd eraill – o'r 95 cerdd yn y gyfrol honno, priodolir 61 ohonynt gan Iolo i feirdd eraill, ac mae 18 arall yn ddienw ganddo!

Gellir ychwanegu hefyd ein bod yn fawr ein dyled i Tegwyn Jones am olygu cyfrol a ymddangosodd yn yr un flwyddyn â *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, sef *Y Gwir Degwch*, yr argraffwyd 250 o gopïau ohoni gan wasg gain Huw Ceiriog, Gwasg y Wern. Detholiad o 15 o gywyddau serch Iolo sydd yn y gyfrol honno, ond mae'n hen bryd cael casgliad helaethach o lawer o waith un a oedd yn gymaint feistr ar y canu cynganeddol nes llwyddo i dwyllo llawer un fod rhai o'i gerddi yn gywyddau coll o waith y meistr mawr ei hun, Dafydd ap Gwilym.

Fel y dywed Tegwyn Jones yn ei ragymadrodd i *Y Gwir Degwch*: 'Trwythodd [Iolo ei hun yng ngwaith Dafydd ap Gwilym] ac yng ngwaith y cywyddwyr mawr eraill, yn enwedig Dafydd ab Edmwnd […]. Canodd ar destunau tebyg i'w heiddo hwythau, a'r un yw'r ieithwedd a'r arddull a'r hoywder wrth drin y cywydd, ond y mae yma hefyd wreiddioldeb bardd rhamantaidd o fri a garai natur mor angerddol â Dafydd ap Gwilym ei

hun, ac a oedd mor synhwyrus ei ymateb iddi yn aml iawn.'


Fe welwn yr un feistrolaeth ar grefft a'r un ymateb synhwyrus, rhamantaidd yng ngherddi rhydd Iolo hwythau, nid lleiaf yn un o'r hyfrytaf ohonynt i gyd, un a gynhwyswyd gan Thomas Parry yn yr *Oxford Book of Welsh Verse* (1962). Cerdd ydyw yr honnodd Iolo iddi gael ei chanu yn 1660 gan Ddafydd Gibwn o Sain Ffagan. Ynddi, mae'r bardd – sef Iolo ei hun! – yn gofyn i eos fynd yn negesydd serch at ferch yn Nhyllgoed. 'Bardd rhamant, a'i galon yn dawnsio i fiwsig y geiriau, a ganodd y gerdd hon,' meddai G. J. Williams; ac yn sicr mae'n gerdd werth oedi yn ei chwmni.

*(I'w barhau)*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ein braint, fel Aelwyd, oedd gwahodd Mrs Rhiannon Evans fel gwraig wadd i'n dathliad Gŵyl Ddewi rhithwir ddydd Gwener 5 Mawrth. Yn gyfarwydd i lawer ohonom fel gwraig ddiwylliedig wedi'i throchi yn y Pethe, soniodd Rhiannon ei bod wedi bod yn ddiwyd yn casglu gwybodaeth am ei theulu a chymdogaeth Llanddeiniol, sef ei phentref genedigol yng Ngheredigion. Mae hi wedi rhoi'r cyfan ar gof a chadw i'r teulu mewn cyfrol clawr caled o'r enw *Llyfr Coch Carrog*. Datgelodd Rhiannon fod deuddeg o gopïau wedi eu dosbarthu i aelodau o'r teulu erbyn hyn; rhodd amhrisiadwy i'r wyrion a chenedlaethau'r dyfodol yn sicr.





Adroddodd Rhiannon yr hanes pan orfodwyd ffermwyr yr ardal i dalu'r degwm i'r eglwys ac i bleidleisio dros y Toriaid er nad oeddent yn mynd i'r eglwys. Aeth y trigolion ati felly i godi addoldy ac ysgoldy yn y pentref a dyna lle cafodd Rhiannon ei haddysg gynnar. Cawsom flas o'i phlentyndod a'i magwraeth ar y fferm deuluol. Cawsom brynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni Rhiannon ac mae'r diolch yn fawr iddi.

Bythefnos wedyn, Heddyr Gregory, Swyddog Cyhoeddusrwydd gyda Shelter Cymru oedd y siaradwraig. Pwysleisiodd fod hawl gan bawb i gartref diogel pwrpasol ond bod cyflwr tai o dan rai landlordiaid gwael a barus yn ddifrifol. Eglurodd fod rhaglen Cathy Come Home yn 1966 wedi codi sylw yn gyffredinol fod miloedd o deuluoedd yn dioddef. Bwriad Shelter Cymru yw ceisio atal a dileu digartrefedd. Rhestrodd amryw o resymau am golli cartref – colli gwaith. dyled, tor-priodas, colli iechyd, trais yn y cartref, dadlau teuluol, methu talu morgais, salwch meddwl ac ati. Pwrpas Shelter Cymru yw cefnogi ac addysgu'r difreintiedig, a'u cyfeirio at asiantaethau pwrpasol; cynnal syrjeri i drafod sefyllfaoedd; cyfeirio'r hen, canol oed a'r ifanc i ailgydio mewn bywyd, a chyflogi arbenigwyr i ddadlau dros achosion difrifol.

Pwysleisiodd fod y gwasanaeth yn dibynnu'n llwyr ar roddion y cyhoedd i gefnogi'r difreintiedig. Syfrdanwyd y gwrandawyr gan faint yr angen.

Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Gwenda Morgan ar ddarpariaeth Zoom.

Cynhelir y cyfarfod nesaf brynhawn Gwener, 9 Ebrill, yng nghwmni Hannah Roberts, un o feirdd Caerdydd ac yn ohebwraig adnabyddus. Os dymunwch ymuno, cysylltwch â ni ar e-bost - aelwydhamdden@gmail.com.

***Rhiannon Evans (top) a Heddyr Gregory (gwaelod)***

# Merched y Wawr Bro Radur

Ein siaradwr Gŵyl Dewi oedd Jon Gower, awdur toreithiog yn Gymraeg a Saesneg a llais cyfarwydd ar y radio. Mae e wedi ysgrifennu nofelau, straeon byrion, llyfrau teithio a hanes.

Bu`n trafod y dylanwadau a greodd yr awydd ynddo yn ifanc iawn i fod yn llenor, sef ei dad-cu, a fyddai`n rhoi arian iddo i brynu llyfrau; llyfrgell y Pwll, Llanelli a`i gyflwynodd i lyfrau ffeithiol a`r clasuron, yn enwedig ei arwr, Dickens, a hefyd ei deithiau tramor, yng Ngogledd a De America.

Yn Saesneg y dechreuodd lenydda, ond mae e wedi ysgrifennu`n helaeth yn Gymraeg hefyd, gan ennill cystadleuaeth y Stori Fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2010 a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2012 am y nofel *Y Storïwr.* Oherwydd ei fod e`n dwlu ar sŵn geiriau, mae e wrth ei fodd yn creu rhyddiaith sy`n soniarus i`r glust, a chlywsom enghreifftiau o hyn wrth iddo ddyfynnu o`i waith.

Treuliom awr ddifyr iawn yn ei gwmni wrth rannu yn y profiadau sy`n treiddio drwy ei waith.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Mae mis Mawrth yn codi'r galon mewn sawl ffordd. Gallwn deimlo'r gwanwyn yn y tir ac yn y tywydd, ar sawl diwrnod sy'n garedig o fwyn. Drwy'r Garawys byddwn yn paratoi ar gyfer dathliad fawr yr Eglwys – yr Atgyfodiad - ac mae hynny'n ysgogiad i edrych ymlaen mewn llawenydd. Ac mae dyddiau gŵyl mis Mawrth hefyd yn ein hatgoffa o'r gefnogaeth sydd gyda ni yn ein seintiau. Efallai fod Dewi Sant a Padraig yn amlwg, ond un sy'n cael llawer llai o sylw yw Joseff Sant, a'i ddydd gŵyl ar 19 Mawrth.

Eleni, cafodd Joseff Sant fwy o sylw na'r arfer: mewn llythyr o'r enw Patris Corde, cyhoeddodd y Pab Ffransis flwyddyn gyfan i'w anrhydeddu a'n hannog i werthfawrogi rhan Joseff yn hanes iachawdwriaeth. Mae'r troeon y daw i'n sylw yn yr Ysgrythur yn dangos ei fod yn ddyn o ffydd gref, sy'n derbyn bod Duw yn siarad ag e fel gwarchodwr Ei Fab. Gŵr cadarn a ofalodd fod y teulu yn ddiogel rhag Herod, a thad gofalus a aeth i chwilio am yr Iesu pan aeth ar goll ar y daith o Jerwsalem. Gallwn efelychu Joseff ar ein taith ninnau drwy weithio'n dawel a ffyddlon yng nghenhadaeth yr Iesu.

Cafwyd dathliad arbennig ar Ŵyl Joseff Sant gydag Offeren yn yr Eglwys Gadeiriol a'r Tad Peter Davies yn llywyddu. Ar ôl y Pasg, bydd dwy Offeren reolaidd yn yr Eglwys Gadeiriol bob mis, ar yr ail a'r bedwaredd nos Wener am 6 o'r gloch. Bydd y rhain yn cymryd lle'r un sydd wedi bod hyd yn hyn ar y drydedd nos Wener. Am nawr, dim ond y llif byw fydd ar gael, ond edrychwn ymlaen at allu mynychu yn gynulleidfa cyn bo hir.

Braf oedd rhannu yn yr addoliad gyd-eglwysig ddydd Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant ar Zoom.

Roedd Offeren Sul y Pasg ar Zoom eleni eto – mae blwyddyn gyfan ers i'r Esgob Regan arloesi wrth gynnig yr Offeren inni dros y we ar Sul y Pasg llynedd. Diolch iddo fe a'r Tad Allan Jones am eu ffyddlondeb drwy'r flwyddyn ryfedd ac anodd aeth heibio.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

***Dr Martyn Lloyd Jones***

Hwyrach bod enw'r Dr Martyn Lloyd Jones yn gyfarwydd i rai o ddarllenwyr hŷn *Y Dinesydd,* ond bellach mae deugain mlynedd ers ei farw ddydd Gŵyl Dewi 1981. Yn ddiweddar yn ein cyfarfod gwragedd 'Paned a Sgwrs' buom yn meddwl am ei fywyd cynnar. Er iddo gael ei eni yng Nghaerdydd, roedd ei wreiddiau yn ddwfn yn Sir Aberteifi, ac yno y treuliodd flynyddoedd ei blentyndod. Cadwai ei dad siop yn Llangeitho, dafliad carreg o gapel a cherflun enwog Daniel Rowland. Yn 1914 symudodd y teulu i Lundain i gadw busnes llaeth, fel y gwnaeth llawer o drigolion Sir Aberteifi yr adeg honno. Erbyn hyn roedd Martyn wedi penderfynu ei fod am fod yn feddyg ac yn 16 oed cafodd ei dderbyn i ysgol feddygol St Bartholomew's, neu Bart's fel y'i gelwid. Disgleiriodd yn ei astudiaethau meddygol a daeth maes o law yn gynorthwyydd i Syr Thomas Horder, meddyg y brenin.

Ond daeth tro ar fyd a gadawodd y meddyg ifanc y byd meddygol yn 1926 a mynd yn weinidog yn un o gapeli Symudiad Ymosodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn Aberafan, Port Talbot. Bu cryn sôn am hyn yn y wasg ar y pryd gan bwysleisio'i hunan-aberth wrth adael ei swydd uchel a mynd yn weinidog i ardal dlawd a difreintiedig iawn. Ond ymateb Martyn i hyn oedd datgan ei fod yn ei ystyried yn un o'r breintiau mwyaf gallai Duw ei roi i ddyn oedd ei alw i fod yn gennad yr Efengyl.

Y gobaith yw parhau â'r hanes yn y dyfodol gan ystyried ei gyfraniad i Gymru, ac yn wir, i'r byd.

***Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol***.

'Rydym ni yn yr Eglwys Efengylaidd wedi cael y fraint a'r fendith o ganu rhai o emynau Noel Gibbard ers rhai blynyddoedd. Yn ddiweddar trafodwyd dau o'i emynau, ar thema'r Groes, yn sesiwn Wyn James ar nos Iau. Roedd hyn yn arbennig o addas wrth inni nesáu at y Pasg. Yn yr emyn cyntaf mae'r ddau bennill cyntaf yn weddi ar i Dduw ddatguddio inni yr hyn oedd yn digwydd ar Galfaria. Yn y pennill olaf mynegir diolch am y fath gras a chariad.

Ar hyn o bryd mae casgliad o 50 o emynau Noel yn mynd drwy'r wasg ac edrychwn ymlaen yn fawr at eu gweld a chael myfyrio arnynt.

Nid yw Noel yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd, ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato, gan ddiolch iddo am ei holl waith yn ein plith.

## EGLWYS Y CRWYS

Teimlwyd tristwch unwaith eto yn Eglwys y Crwys pan dderbyniwyd y newydd am farwolaeth Miss Pat Lister. Bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd. Yn enedigol o Gaer daeth i Gaerdydd i astudio fel fferyllydd a bu'n fferyllydd yn Ysbyty Gwent am lawer blwyddyn. Byddwn yn colli ei gwên a'i hiwmor iach yn y cyntedd ar fore Sul. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu a'i llu o gyfeillion agos.

Cafodd y Gymdeithas y pleser o gwmni Delyth Jewell yn eu dathliad Gŵyl Dewi hwyr. Bu'n sgwrsio'n ddifyr am ei chyfnod yn Ysgol Cwm Rhymni, Coleg Prifysgol Rhydychen, a'i gwaith fel ymchwilydd yn San Steffan cyn dod yn Aelod o Senedd Cymru. Diolch Delyth am noson gartrefol braf, a diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Cafwyd noson hwyliog gan y Gymdeithas mewn Sesiwn o Bampro yng nghwmni Kelly o Neal's Yard. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn – yn enwedig y dynion!! Diolch eto i Cerian Angharad.

Cynhaliodd y Gymdeithas eu Gwasanaeth Groglith fore Gwener, 2 Ebrill, gyda'r gwasanaeth o dan arweiniad y Dr Alun Tiplady. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. Glyn Tudwal Jones. Diolch i bawb a gymerodd ran mewn gwasanaeth teilwng iawn.

Ar y funud, rhagwelir mai gwasanaethau rhithwir a gynhelir eto yn ystod mis Mai. Bydd y Gweinidog yn gwasanaethu'r Cymun ar y Sul cyntaf a'r Parch. Robert Parry, Lerpwl yn ein Cyfarfod Pregethu ar 9 Mai. Ar 16 Mai, cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol; gyda'r Parch. Glyn Tudwal Jones a'r Parch. Athro John Tudno Williams yn gwasanaethu ar 23 a 30 Mai. Croeso cynnes i bawb ymuno.

## EGLWYS DEWI SANT

***Gŵyl Dewi***

Nid oedd yn bosibl inni ddathlu gŵyl ein nawddsant a'n mabsant yn y ffordd arferol eleni gyda chinio cawl cennin yn y neuadd. Serch hynny, dathlwyd gyda'r Foreol Weddi yn yr eglwys.

***Y Garawys***

Darparodd yr Eglwys yng Nghymru gyfres o fyfyrdodau yn Gymraeg ar-lein ar gyfer y Garawys dan y teitl 'Garawys – Dechrau eto'.

***Cwmplin a Choco***

Bob nos Fercher drwy'r Garawys cynhaliodd y Ficer wasanaeth Cwmplin a myfyrdod fer dros Zoom. Mae'n wasanaeth terfyn dydd syml a thangnefeddus.

***Banc Bwyd***

Yr arferiad dros y Garawys yn y blynyddoedd diwethaf oedd casglu bwyd at ddefnydd y Banc Bwyd. Gan fod hynny yn ymarferol anodd eleni, fe'n hanogir i wneud cyfraniadau ariannol i'r Banc Bwyd.

***Sul y Fam***

Un o draddodiadau Eglwys Dewi Sant yw cyflwyno tusw o flodau ar ran plant yr Ysgol Sul i'r menywod yn y gynulleidfa. Nid oedd hynny'n ymarferol eleni, ond cafodd y menywod dipyn o sypreis fore Sul pan gawsant dusw rhithwir o flodau gan y Ficer!

***Cyngor Plwyf***

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig dros Zoom nos Lun 8 Mawrth. Prif eitem yr agenda oedd yr Adroddiad Blynyddol. Ar ran y Cyngor diolchwyd i'r Trysorydd, Rhys Jones, am ei waith cyson a thrylwyr, gan Ifor Arch, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo.

***Coffi a Chlonc***

Cafodd dysgwyr gyfle unwaith eto i ymarfer eu Cymraeg mewn cyfarfod Coffi a Chloc dros Zoom ddydd Sadwrn 20 Mawrth.

***'Gofal ein Gwinllan'***

Dechreuodd cyfres o weminarau a drefnir gan yr Eglwys yng Nghymru ar gyfraniad yr Eglwys Anglicanaidd i iaith a llên Cymru fore Sadwrn 20 Mawrth gyda thrafodaeth ar waith y Dr John Davies, Mallwyd, ac Edmwnd Prys.

***Cydymdeimlad***

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf at Judith Poulson a'r teulu ar farwolaeth ei mam, Margaret Jones. Bu Margaret yn Eglwysreg ffyddlon ar hyd ei hoes faith a gwelwn fwlch mawr ar ei hôl.

## EBENESER

***Cyd-addoli***

Fore Sul, 28 Chwefror, ymunwyd ar Zoom gydag eglwysi Capel y Traeth, Cricieth; Salem, Porthmadog a Rhydymain. Eu gweinidog, y Parch. Iwan Llewelyn Jones, oedd yn pregethu. Daeth nifer sylweddol i ymuno â ni. Diolch iddo am ei neges. Hyderwn y cawn gyfle eto i gyd-addoli fel hyn yn y dyfodol.

***Cerdded mor bell!***

Diolch i Eynon a Delyth Williams am gerdded dros 200 milltir yn ystod mis Chwefror er budd ein helusen Uned Arennol Ysbyty Plant Cymru. Daeth oddeutu £900 o gyfraniadau i law.

***Darlith***



Y Parch. Ddr R. Tudur Jones

Cafwyd darlith swmpus wedi ei threfnu gan Gymdeithas Ebeneser ar Zoom nos Lun, 15 Mawrth, gan ddwyn y teitl "Ffydd ac Argyfwng Cenedl 2021: Ail ymweld â her R Tudur Jones." Daeth cynulleidfa niferus ynghyd o Gymru benbaladr a thu hwnt a thraddodwyd y ddarlith gan y Parch Ddr Rhys Llwyd, Caernarfon. Gellir gweld crynodeb o'r ddarlith ar flog Rhys Llwyd drwy glicio ar y ddolen hon: www.rhysllwyd.com/ffydd-ac-argyfwng-cenedl-2021.



Y Parch. Ddr Rhys Llwyd

***Agor y Llyfr***

Mae Tîm Agor y Llyfr Caerdydd wedi recordio dau fideo newydd ar gyfer gwasanaethu mewn ysgolion cynradd Cymraeg. Y tro hwn adroddwyd hanes "y diwrnod mwyaf trist," sef dydd Gwener y Groglith a'r "diwrnod mwyaf hapus" sef Sul y Pasg a'r atgyfodiad. Os hoffech i'r ysgol yr ydych chi yn gysylltiedig â hi eu defnyddio cysylltwch gydag aluntudur@btinternet.com.

***Eisteddfod Rithwir***

Cafwyd hwyl mawr yn Eisteddfod Rithwir gyntaf erioed Ebeneser nos Fercher 3 Mawrth ar Zoom o dan lywyddiaeth John Hayes. Cyflawnodd John ei waith yn feistrolgar. Rydym yn torri cwysi newydd lawer yn ystod y cyfnod hwn. Diolch i Gill Lewis a Helen Thomas am helpu gyda'r trefnu. Cymrwyd rhan gan nifer o blant, ieuenctid ac aelodau. Gwahoddwyd y Parch. Ddr Geraint Tudur i feirniadu'r cystadlaethau brawddeg a limrig, a diolchwn iddo am wneud hynny. Llongyfarchiadau mawr i'r cystadleuwyr buddugol. Bwriad yr Eisteddfod oedd cymdeithasu a chodi arian tuag at ein helusen, Undeb Arennol Ysbyty Plant Cymru. Roedd y cyfraniadau yn ymylu ar £500.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod mis Chwefror gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Lyn Jenkins, gynt o Bontiets, a fu'n brifathro yn Ysgol Gynradd Viriamu Jones ac yna Ysgol Gynradd Tonyrywen. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw, Mair, ac â'r teulu oll.

Dymuniadau gorau i Elliw ac Oswyn Richards ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf. Croeso i'r byd i Lewys Cynan!

Yn ystod y mis parhawyd â'r gwasanaethau ar Zoom bob bore Sul dan ofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan. Edrychwyd ymlaen at wasanaeth y Pasg ar Zoom ar fore Sul 4 Ebrill. Ganol y mis cynhaliwyd Bore Coffi Zoom pan fu cyfle eto i sgwrsio gyda'n cyd-aelodau a rhannu newyddion.

Ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth cymun yn y capel. Mae'r rheolau ynglŷn â'r niferoedd sy'n cael bod yn yr adeilad yn parhau felly roedd angen cofrestru ymlaen llaw. Mae cynlluniau ar waith i ail-gychwyn gwasanaethau yn y capel ar foreau Sul yn ystod y misoedd nesaf, gan obeithio bydd sefyllfa'r pandemig yn parhau i wella.

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

***Oedfaon Rhithwir Ebrill 2021***

4 Delwyn Sion (Cymun)
11 Wynford Ellis Owen
18 Y Parchg R Alun Evans
25 Emlyn Davies

***Mae* Caneuon Ffydd *yn ugain oed eleni!***

Bu trafod am y cynnwys ac yn fwy penodol am yr emynau oedd wedi eu gadael allan.

A dyna wneuthum, gan chwilio am "Rwy'n canu fel cana'r aderyn" – cyfarwydd mewn Ysgol Sul ac Ysgol ddyddiol. Ond ysywaeth yn ofer.

Chwilfrydedd wedyn wrth afael yn *Y Caniedydd* a darganfod yr emyn yn rhif 905 yn "Adran yr Ifanc" yng nghefn y gyfrol. Unig emyn William Richards (Alfa) 1875 – 1931, ynddo.

[Hefyd "Atodiad" i "Llyfr Emynau a Thonau" y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd (rhif 964).]

Craffu ar wefan y "Bywgraffiadur", ond dim sôn amdano yno. Gwn lle y gorwedd:

> Bedd crand y Parchedig William 'Alfa' Richards (1875-1931), bardd ac emynydd, ym mynwent Capel Hermon, Brynaman. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth *Blodau'r Groes* (1907) a *Clychau'r Wawr* (1910) ond mae e'n cael ei gofio orau fel awdur yr emyn poblogaidd hwnnw i blant 'Rwy'n canu fel cana'r aderyn'.

Deillio wna'r uchod o hanes diweddar yn sôn am aderyn prin yn Awstralia, y Regent Honeyeater, oedd yn colli ei gân. Rhyw 300 ohonynt sydd ar ôl ac nid ydynt mwyach yn debygol o glywed, ac felly dysgu, cân eu tylwyth. Gall adleisio cymysgwch o nodau caneuon adar eraill, ac mae diogelu eu can yn waith cadwraethol, gan ddefnyddio recordiad o'u trydar yn y gwyllt i ddysgu'r adar hynny sy'n gaeth, cyn iddynt ddychwelyd i'w cynefin.

"Ond i alw pawb at ei gilydd, rhaid canu nodau gwahanol" [Numeri 10:7 - Beibl.net].

"Galw pawb at ei gilydd" fydd ein camp ninnau pan ddaw'r cyfnod clo i ben – gobeithio na fyddwn wedi colli gafael ar ein cân, A "chanu nodau gwahanol" mewn ambell i oedfa – pwy wŷr!

## TABERNACL, YR AIS

***Ail-gartrefu Teulu o Ffoaduriaid o Syria***

O'r diwedd mae pethau'n symud! Fel sydd wedi digwydd gyda llu o weithgareddau ers mis Mawrth 2020, ni fu'n bosibl symud ymlaen gyda'r trefniadau i groesawu teulu arall o ffoaduriaid i Gaerdydd oherwydd y pandemig COVID-19. O ganlyniad, yn amodol ar gyd-weithrediad Cyngor Dinas Caerdydd, gobeithir cael penderfyniad cadarnhaol llawer cynt nag a ddisgwylid dan yr hen drefn, gyda chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol yn rhan weithredol o'r pwyllgor lleol yn hytrach na gwneud y penderfyniad terfynol ar y cais. Citizens Cymru fydd y prif noddwyr dan y drefn hon. Bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Swyddfa Gartref yn fuan yn eu hysbysu mai dymuniad Croeso Butetown, y pwyllgor lleol yr ydym ni yn rhan ohono, yw prysuro gyda'r drefn newydd.

***Cofio Margaret Williams Fletcher***

Yn 95 oed, bu farw Margaret Williams Fletcher yng nghartref Sunrise, Cyncoed. Merch o Donypandy oedd hi, wedi ei magu ar aelwyd ddefosiynol gyda'i thad yn ysgrifennydd Eglwys Moreia, Tonypandy. Roedd Margaret yn wraig wylaidd a chyfeillgar, ac yn un a fwynhaodd ei gyrfa ym myd addysg. Bu'n gyson ei chefnogaeth i fywyd eglwys y Tabernacl.

***Llenor o fri***

Llongyfarchiadau i Meredydd Ifan ar ennill cadair Eisteddfod Ysgol Melin Gruffydd eleni. Mae ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd ac yn edrych ymlaen at fynd i Ysgol Glantaf ym mis Medi.

***Oedfaon mis Mawrth***

Cynhaliwyd oedfaon boreol mis Mawrth drwy ddarpariaeth Zoom gan y canlynol yn eu tro: Cwrdd Plant dan ofal Luned Jones; Euros, Sian a John Bowen, ac yna Huw Roberts. Roedd gwasanaethau hwyrol y mis yn y capel o dan ofal y Parch. Lona Roberts, Denzil John, Alun Tudur ac Owain Llyr Evans. Diolch i bob un am eu cyfraniadau.

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mair a Bob Colley ar farwolaeth eu mab Peter, yn dilyn cystudd blin a hir.

Ers misoedd mae'r nodiadau hyn wedi cyfeirio'n ofidus at ddau annwyl iawn yn ein golwg, Harry Watters ac Euryn Ogwen Williams. Ar 16 Mawrth cawsom y newyddion trist iawn bod y ddau wedi'n gadael.

Cafodd Harry ei ben-blwydd yn 98 oed ar 27 Chwefror, ond nid oedd modd dathlu fel y buasai Harry wedi ymdaflu iddo, dyna'i natur. Erbyn y dyddiad hwnnw roedd yn Ysbyty Llandochau ar ôl cyfnod yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Byddwn ni, ei gyd-aelodau ym Methel, yn diolch am ei ffyddlondeb i bob oedfa, tra gallai, a hynny nes i effaith y pandemig orfodi cau'r drws. Nid oedd gwanhau ei olwg chwaith yn rheswm dros gadw draw. Priodol yma yw cofnodi ein diolch i'r cyfeillion a gludodd Harry i'r Oedfa. Cofiwn am sirioldeb ei natur a rannai gyda'i wraig Betty a fu farw yn 2013. Mae tipyn o sôn y dyddiau hyn am godi neu ddymchwel cof-golofnau. Wel, gallwn hawlio un yn barod, yn answyddogol; gallwn gofio Harry bob tro y byddwn yn croesi'r bont dros afon Nedd yn Llansawel. Harry 'gododd' y bont, yn rhinwedd y cyfrifoldeb pwysig oedd ganddo, ar gefn ei arbenigedd yn beiriannydd sifil.

Anfonwn ein cariad at ferch Harry, Mrs Kathryn Beale, a'i theulu.

Mae'r enw Euryn Ogwen (Williams) yn hysbys i bawb sydd ag unrhyw ymwybyddiaeth o hanes teledu yn y Gymraeg yng Nghymru. Cafwyd rhaglen deyrnged iddo ar S4C nos Wener, 25 Mawrth. Arloeswr dewr a hynaws.

Ond inni, aelodau Bethel a felly aelodau ein Cyfundeb gyda'r Tabernacl, y Barri, lle roedd Euryn wedi bod yn biler gweinyddol ac ysbrydol ers amser, rydym yn galaru o golli brawd annwyl iawn. Dros y blynyddoedd, gan gynnwys cyfnod ei salwch creulon a blin, bu'n 'gymorth hawdd ei gael', yn rhannu profiad a dehongliad mewn sgwrs a phregeth, yn cynnal meddwl ac enaid. Dros y flwyddyn ryfedd ddiwethaf cawsom yn helaeth o gyfoeth ei fyfyrdod mewn sesiynau Zoom (pwy all anghofio'r llais?), heb anghofio gweledigaeth sawl emyn a charol, pob un wedi'i gyfansoddi i gwrdd ag anghenion y presennol pryderus. Profiad bythgofiadwy i lawer ohonom ym mis Rhagfyr 2020 oedd canu dwy o garolau Euryn yn yr oerfel yn ein ceir ar dir Ysgol Gynradd Penygarth. Yn ddiau, roedd y profiad hwnnw yn ddwysach na chynnal traddodiad.

Anfonwn ein cariad mwyaf tyner at Jenny, gwraig Euryn, a'i blant Rhodri a Sara.

## SALEM, TREGANNA

### *Agor yr adeilad*

Braf oedd gallu agor yr adeilad eto dros y Pasg wedi cyfnod mor hir, wrth gynnal cymun fore Gwener y Groglith ac oedfa gymun ar Sul y Pasg. Mae ein gwasanaethau Zoom yn parhau yn ogystal bob bore Sul am 10.15. Mae'r Ysgol Sul i oed cynradd hefyd yn parhau ar Zoom ar foreau Sul am 11 wrth i dymor yr haf ail-ddechrau.

### *Priodas*

Llongyfarchiadau mawr i Mark a Heledd ar eu priodas, a phob dymuniad da i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

### *Bore Coffi*

Hyfryd oedd cyfarfod dros y we am goffi a chlonc fore Mawrth 9 Mawrth.

### *Clwb y Bobl Ifanc*

Nos Wener, 19 Mawrth daethom at ein gilydd i fwynhau cwis hwyliog.

### *Llongyfarchion*

Llongyfarchiadau i Rhys a Helen Jones ar enedigaeth eu hwyres gyntaf. Dymuniadau gorau i'r teulu.

## EGLWYS MINNY STREET

### *Oedfaon ac addoli*

Mae ein patrwm o oedfaon ar fore Sul, bore a nos Fercher (ac eithrio ar 7 Ebrill) yn parhau dan arweiniad ein Gweinidog, gydag ambell lais gwahanol yn arwain yn achlysurol ar y Sul. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a bore Mercher ar Zoom. Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon yn y capel.

### *Yr Ysgol Sul*

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gwrdd ar Zoom ar brynhawn Mawrth (ac eithrio ar 6 Ebrill).

### *Dydd Gwener y Groglith*

Cynhaliwyd gwasanaeth dan arweiniad ein Gweinidog yn y Deml Heddwch (Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays). Cynhaliwyd gwasanaeth Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ar Zoom a bregethwyd gan y Parch. Ddr Alun Tudur, Eglwys Ebeneser.

### *Tymor y Garawys*

Mae crynodeb o gynnwys a negeseuon chwe chyfarfod y Garawys wedi ymddangos ar wefan yr eglwys o dan y pennawd Noli Me Tangere (Na chyffwrdd â mi). Echel y cyfarfodydd oedd hanes yr Iesu yn ymddangos i Mair Magdalen yn yr ardd (Ioan 20: 11–18). Cafwyd arweiniad gwerthfawr wrth ystyried gweithiau celf amrywiol yn dehongli'r cyfarfyddiad hwnnw ac wrth ddarllen cerddi am yr un hanes. Cynigiwyd gweddi bwrpasol hefyd ar gyfer yr wythnos.

www.minnystreet.org @MinnyStreet


# Merched y Wawr Caerdydd


Priodol oedd bod ein sgwrs fis Mawrth yn rhan o ddathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Dyddiad pwysig i ddathlu llwyddiant, codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cyfartaledd a gweithredu er mwyn cyfiawnder. Pwy well i arwain y noson na'r Dr Siân Rhiannon Williams gyda sgwrs ddadlennol am ymgyrchoedd merched am gyfiawnder yn y 1920au?

Clywsom hanes merched byd addysg Cymru oedd yn flaengar ac yn ddylanwadol yn yr ymgyrchoedd ac yn benodol yr NUWT (*National Union of Women Teachers*) oedd yn galw am gyflog cyfartal am waith cyfartal, a'r hawl i fenywod barhau mewn swydd ar ôl priodi. Aeth nifer o'r merched ymlaen i sefyll fel cynghorwyr sir er mwyn defnyddio eu llais i geisio cyfiawnder ehangach a hynny mewn cyfnod lle nad oedd croeso i fenywod fel cynghorwyr. Er yn gyfnod o gyni roedd yn gyfnod o lunio newid i hawliau merched mewn sawl maes.



Mae gwaith ymchwil Siân yn parhau. Anogwyd ni i ymchwilio i weld a oedd ein neiniau/mamau-cu ni ymhlith y merched fu'n casglu deisebau ar gyfer ymgyrch heddwch 1923-24. Neges Siân oedd bod edrych yn ôl yn ein harfogi i barhau i yrru ymlaen dros hawliau ein chwiorydd ledled y byd.



# Cwmni'r Dysgwyr

## Cofio Thelma Dann



Gwilym Dafydd

### Oriau Hapus a chofio Thelma Dann

Ers geni'r Awr Hapus yn mis Tachwedd 2001, rydym wedi croesawu degau lawer o ddysgwyr ar foreau Llun yng Ngwesty Pentref Coryton, ac ar Zoom yn ystod blwyddyn COVID-19.

Mae pump ysywaeth bellach wedi ein gadael drwy farwolaeth sef Dorothy, David, Marjorie a Brian fis Mawrth llynedd ac, yn ddiweddar, Thelma ar 4 Mawrth.

Roedd John (neu Ioan) sef gŵr Thelma yn un o sylfaenwyr yr Awr Hapus ac ymunodd Thelma gyda ni yn fuan wedyn.

***Teulu o Fedyddwyr***

Dyw hi ddim yn syndod taw Bedyddwraig oedd Thelma ar hyd ei hoes hir – bu John yn weinidog gyda'r Bedyddwyr a hefyd ei thad, y Parch. Archibald Cecil Richardson.

Mae'n ddiddorol nodi lle bu tad Thelma yn weinidog oherwydd medrwn ddychmygu'r lleoliadau y treuliodd hi ei blynyddoedd cynnar cyn symud i Gaerdydd ym 1940. Dechreuodd yn weinidog yng Ngharmel Trealaw, Rhondda Fawr rhwng 1924-29 ac yno ganwyd Thelma yn 1929 cyn i'r teulu symud i Eglwys Stow Park, Casnewydd tan 1935 wedyn dychwelyd i Garmel Trealaw cyn symud i Eglwys Longcross St, Waunadda, 1940-45 yna Eglwys Stryd Pentyrch Cathays 1945-64.

Pan soniodd Angharad yn clonc Zoom Eglwys Dewi Sant Caerdydd, un bore Sadwrn ym mis Mawrth, ei bod yn byw yn Nhrealaw, holais hi os oedd capel Carmel yn dal ar agor. Gall weld y capel o'i chartref – bellach, fflatiau yw eglwys gyntaf tad Thelma.

***Addysg Ysgol a Phrifysgol***

Addysgwyd Thelma yn Clive Hall Treganna a Phrifysgol Caerdydd pan ond yn 16 oed. Saesneg oedd ei phrif bwnc ac enillodd radd dosbarth cyntaf a diploma mewn addysgu.

Bu'n athrawes Saesneg yn Ysgol Ramadeg Sirol y Porth, yna Ysgol Ramadeg Merched Cathays. Priododd John yn 1960 a ganwyd Clive yn 1962. Dyna oedd diwedd ei gyrfa fel athrawes Saesneg ond gwnaeth lawer o waith marcio i'r Cyd-bwyllgor Addysg a thiwtora disgyblion ysgol i sicrhau lefel O Saesneg tan y 1980au hwyr.



Yn Eglwys Pentyrch St. lle bu John ei gŵr hefyd yn weinidog mewn cyfnod diweddarach, dechreuodd waith Girls' Brigade yno ac am 20 mlynedd buodd yn Gomisiynydd Adran De Ddwyrain Cymru o'r Girls' Brigade.

Mae gen i gof eistedd wrth yr un bwrdd yn swper y gweinidogion gyda John a Thelma yn neuadd Eglwys Ararat tua dechrau'r 1990au. Rhyw ddegawd yn ddiweddarach roedd yn syndod braidd gen i glywed eu bod yn awyddus i ddysgu Cymraeg – eu Saesneg perffaith wedi creu argraff arnaf o bosib!

***Thelma yn dysgu Cymraeg***

Cofiaf alw gyda Thelma ar nos Lun am ryw ddwy flynedd – roedd hi'n un o fy nysgwyr mewn dosbarth nos yn y Pwerdy yn Llanedeyrn.

Tybiaf taw John oedd yn awyddus i gynnal rhyw fath o ysgol Sul neu ddosbarth Beiblaidd misol yn eu cartref croesawgar yn Heol Santes Farged, yr Eglwys Newydd. Yno ganwyd 'Pnawn Sul Hapus' a buom wrthi o 2006 tan i iechyd Thelma ddechrau dirywio erbyn 2015. Y drefn arferol oedd ein bod yn astudio rhwng 2.45 a 3.30 ac yna clonc, paned a bisgedi blasus Thelma tan bedwar o'r gloch, neu'n hwyrach ar adegau!

Mwynheuon ni, pobl yr Awr Hapus, ginio blynyddol weithiau ym mis Rhagfyr neu Ionawr o amgylch diwrnod Santes Dwynwen – yn yr Hollybush neu yr hen Mason's Arms, Manor Way. Erys lluniau o'r digwyddiadau cymdeithasol hyn ac mae'n ddiddorol weithiau cael golwg arnynt.

Un o'r digwyddiadau mwyaf cofiadwy oedd noson Santes Dwynwen yn nhŷ John a Thelma. Daeth yr awr i ganu ychydig ac aeth Barbara Morgan draw i eistedd wrth yr organ drydan. Yn fuan wedyn roedd mwg yn dod allan ac yn codi uwchben y nodau du a gwyn! Daeth y canu i stop yn ddigon sydyn ac agorwyd ambell i ffenestr a drws yr un mor sydyn!

Un digwyddiad arall sy'n aros yn y cof yw prynhawn Sadwrn yn mis Ebrill 2010 – John a Thelma yn dathlu priodas aur. Aeth nifer dda o ddysgwyr yr Awr Hapus a Phnawn Sul Hapus draw yno i ymuno yn y dathliadau llawen.

***Gair o gydymdeimlad a diolch***

Rydym yn amlwg am gydymdeimlo gyda John a'i deulu yn eu profedigaeth. Diolch am fywyd a gwaith Thelma. Diolch hefyd i Ruth, merch John a Thelma, Jan Best o Eglwys Bethel, yr Eglwys Newydd ac un o ffrindiau oes Thelma, a Marion Rushton am eu cymorth wrth i fi roi gair ar bapur am y ddiweddar annwyl Thelma Dann.

***Amser Jôc gyda Huw James***

Roedd gan Idris fy nghefnder fusnes llaeth yn Llundain. Roedd e'n aml yn mynd i drafferthion ag Adran Pwysau a Mesurau Cyngor Sir Llundain am ansawdd ei laeth.

Pan ddigwyddai hyn byddai bob amser yn ymgynghori gyda'm cefnder arall, Rhodri, sy'n gyfreithiwr. Nid oedd Rhodri yn arbennig o awyddus i ymwneud â'r sefyllfa – gwyddai na fyddai byth yn derbyn ffi ac y byddai Idris yn mynnu pledio'n ddieuog waeth pa mor gryf y dystiolaeth.

Rwy'n eu cofio yn dadlau ar un achlysur wrth i'r teulu ddod ynghyd.

"Edrych Idris," roedd Rhodri yn dweud, "does dim diben mynd ymlaen a dweud bod y dystiolaeth i gyd yn amgylchiadol (*circumstantial*). Wedi'r cyfan, fe wnaethon nhw ddod o hyd i frithyll yn y llaeth."

## Caerdydd yn Cyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr

Gwelir gwaith un o feirdd anghofiedig Caerdydd, T. C .Thomas, mewn cyfrol ddeniadol a gyhoeddwyd i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr, a gynhelir yn Llanymddyfri yn 2023.

Ganed Thomas Christopher Thomas yng Nghil-y-cwm ym 1842, ond erbyn 1864 roedd yn byw yng Nghaerdydd ac yn briod â Sarah Broomfield (1836–1922) o Clayhidon, Dyfnaint. Daeth yn brif glerc y Gofrestrfa Brofiant, ac roedd yn ddiacon yn Hope, Capel y Bedyddwyr, yn Nhreganna, Caerdydd. Erbyn 1889, roedd yn briod am yr eildro, â Matilda (1852–1930) o Landaf, Caerdydd, a oedd yn llawer iau nag ef.

Bu farw T. C. Thomas yn sydyn ar 4 Hydref 1898 ac fe'i claddwyd ym mynwent y Gadeirlan yn Llandaf. Er iddo gyfansoddi cerddi tan o leiaf dair blynedd cyn ei farwolaeth, ni chyhoeddwyd detholiad o'i waith tan 1900.




Cafodd dwy o'i gerddi eu cynnwys yn *Diferion Dyfri*, a olygwyd gan Handel Jones, Rhandir-mwyn, a fu'n byw yng Nghaerdydd am ugain mlynedd tan 1983.

Rhwng cloriau'r gyfrol, mae gwaith bron i 150 o feirdd a rhigymwyr, ynghyd â gwybodaeth am bob un - a llun pan fo hwnnw ar gael. Yn ogystal, mae dwsinau o luniau gan arlunwyr a ffotograffwyr yr ardal.



Ymhlith y beirdd sydd â chysylltiadau agos â Chaerdydd, mae Gwennan Evans, sy'n cyflwyno bwletinau tywydd a theithio ar Radio Cymru, ac a fu'n Fardd y Mis ar BBC Radio Cymru. Yn enedigol o Bumsaint, mae'n byw bellach yn y brifddinas. Hi yw un o feirniaid cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr.

Bardd arall yw Ifor Rees (1921–2004). Pan oedd yn ifanc, ffurfiodd ddeuawd ysgafn gyda'i gyfaill Dafydd Evans a chyfansoddodd y gân 'Dros y Mynydd Du o Frynaman'. Yn ddiweddarach, roedd yn aelod o'r tîm a sefydlodd y rhaglen deledu *Heddiw*. Ar ôl ymadael â'r BBC yn 1981, ffurfiodd ef a'i wraig Joan gwmni cynhyrchu annibynnol.




Yn *Diferion Dyfri,* gwelir cynnyrch enillwyr Cadair neu Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ochr yn ochr â phenillion am gymeriadau a digwyddiadau lleol. Ymhlith y farddoniaeth gynharaf, mae eiddo Lewys Glyn Cothi o'r bymthegfed ganrif, ac ymhlith y beirdd diweddaraf mae Endaf Griffiths, a aned yn 1994.



Mae'r arlunwyr yn cynnwys Tom C. Jones, brodor o Lansadwrn, Sir Gâr, cyn-athro yn Ysgol Gyfun Radur ac aelod o Gôr Godre'r Garth, Côr Hen Nodiant a Chorws y BBC. Ymhlith yr arlunwyr eraill, mae Aneurin Jones, Peter Kettle, Lon Owen, Marilyn Evans a Dai Gealy.

Yn ôl y golygydd, Handel Jones, a fu wrthi am dair blynedd yn paratoi'r gyfrol:

"Credais ei bod yn bwysig cynnwys amrediad mor eang â phosib er mwyn adlewyrchu'r hyn a oedd yn cael ei gyfansoddi a'i ddarllen yn yr ardal dros y blynyddoedd. Mae fy nyled yn enfawr i ddwsinau o bobl a fu o gymorth amhrisiadwy."

*Diferion Dyfri.* Golygwyd gan Handel Jones. Cyhoeddwyd gan Wasg Llech Ddu. Pris: £20 (+ £2.70 post a chludiant). Copïau ar gael gan Dai Dyer. Ffôn: 01550 720 956 / 07977 913 637.
E-bost: dyer-j4@sky.com

***O'r top i'r gwaelod:***
***Ifor Rees, Tom C. Jones a T. C. Thomas***

# Datgloi

## Stori fer gan John Emyr

'Gaff! Gaff!' gwaeddodd Osian, 'i ble'r aeth o?'

'Does wybod,' atebodd Megan. 'Mae o byth a hefyd yn sleifio i ryw gornel neu'i gilydd.'

'Pam?'

'Hwyrach 'i fod o wedi syrffedu.'

'Ar y cyfnod clo?'

'Ia. Mae o wedi mynd i'w gragen ers tro.'

Ar ôl codi ei allweddi oddi ar eu bachyn a siecio bod ei orchudd wyneb ym mhoced fewnol ei siaced, rhoddodd Osian gusan ar foch Megan a cherdded allan o'r tŷ. Wrth iddo agor drws y car cofiodd ei fod wedi gadael ei waled yn y tŷ. Gan adael drws y car yn agored, piciodd yn ôl i'r tŷ a chodi ei waled oddi ar y bwrdd bach yn y lobi.

'Reit, dyma fi'n mynd eto.'

'Mynd i ble?'

'I olchi'r car cyn mynd â fo i gael teiars newydd yfory. Ma'n rhaid inni ei gadw mewn cyflwr addas.'

'Imi allu dal ati i'w ddefnyddio gyda'r gwaith gwirfoddol?'

'Yn hollol.'

'Mi soniodd Bryn Tŷ Isa' wrtha i am yr olchfa geir. Yn unol â'r rheola COVID, does dim rhaid i yrwyr sy'n defnyddio'r olchfa ddod allan o'u ceir.'

Yn ystod ei daith fer at yr olchfa geir, meddyliodd Osian am y gorchwylion yr oedd ganddo i'w cyflawni dros yr wythnosau nesaf. Os byddai'r cyfyngiadau'n cael eu llacio'n ddigonol, gobeithiai y câi gymorth i fynd drwy'r broses gymhleth o gael pris am y ci aur a ddarganfu Gath yn y cae braenar. Ond, ar hyn o bryd, roedd cadw'r car mewn cyflwr diogel a glân yn ddigon o dasg.

Wrth iddo agosáu at fynedfa'r olchfa geir, sylwodd ar y cynorthwyydd oedd wrthi'n gwylio dau gar a ymlusgai y tu ôl i'w gilydd drwy'r trochion. Erbyn sylwi, gwelodd mai Bryn ei gymydog oedd y cynorthwyydd. Mae'n rhaid ei fod wedi colli ei waith yn y gampfa ac wedi dechrau gweithio yma. Ar ôl i'r ddau gar symud allan o'r olchfa, cerddodd y cynorthwyydd yn ôl i'w giosg ac eistedd yno i ddisgwyl am ei gwsmer nesaf. Pan sylwodd fod Osian yn edrych drwy ffenest ei gar ar y tabl prisiau, cerddodd allan o'i gell, ei fwgwd du yn gorchuddio'i drwyn a'i geg.

'Wyt ti am fentro?'

'Ydw.'

'Pa un?'

'Yr un saith bunt, os gweli'n dda.'

'Iawn, 'te,' meddai Bryn gan estyn ei beiriant cofnodi taliad. Wrth i'r ffenest gau, gwaeddodd, 'Gollynga'r brêc. Paid llywio.'

Teimlad od, meddyliodd Osian, oedd eistedd o flaen y llyw heb afael ynddo na'i gyffwrdd. Er hynny, dyma gyfle i ymlacio. Ond yn sydyn daeth sŵn aflafar i'w glyw, sŵn uchel oedd yn llenwi'r car. Neidiodd Osian yn ei sedd. Ai sŵn ci oedd o? Does bosib. Ia, sŵn cyfarth ac udo gwyllt.



Trodd Osian ei ben, a dyna lle'r oedd Gaff – yn sefyll ar sedd gefn y car, yn gyffro i gyd, fel dyn wedi'i ddeffro o'i gwsg gan storm o fellt a tharanau.

'Gaff! Bobol y ddaear 'ma, o ble ddoist ti?'

Gaff cyfrwys, meddyliodd Osian. Mae'n rhaid ei fod wedi sleifio i mewn i'r car cyn dechrau'r daith heb i neb sylwi. Yna mae'n rhaid ei fod wedi swatio'n ddistaw ar y sedd gefn heb i Osian gael unrhyw argoel ei fod yno. Er ei ddistawrwydd yn ystod y daith, roedd Gaff erbyn hyn yn gwbl effro ac yn hysbyseb effeithiol ar gyfer ffilm arswyd. Rhythai ar y dŵr a'r sebon oedd yn ymdywallt yn ffyrnig ar bob modfedd o ffenestri'r car. Dilynai ei lygaid symudiadau breichiau blewog yr anghenfil y tu allan.

'Paid dychryn, Gaff. Rydan ni mewn golchfa geir, dyna i gyd.'

Choelia i byth! meddai holl osgo Gaff wrth i'r brwshys anferth ddal ati â'u troelli.

Er cyffro'r ci, roedd y car yn parhau i symud yn araf tuag at ben pella'r olchfa. Ar y pwynt hwn, neidiodd Gaff i sedd flaen y teithiwr. Yna agorodd ei lygaid mewn dychryn wrth iddo weld y glwyd sychu yn rhwystr o'u blaen. Cyfarthodd orchymyn i'w feistr i frecio. Ond cyn iddo fedru ufuddhau, darllenodd Osian y geiriau ar y glwyd oedd yn ei siarsio i beidio cyffwrdd y brêc.

Wrth i'r car agosáu at y glwyd, cuddiodd Gaff ei ben o dan ei ddwy goes flaen gan ddisgwyl gwrthdrawiad. Er mawr ryddhad i Osian, cododd y glwyd fesul tipyn a gadael i'w gar adael yr olchfa. Trodd i edrych ar Gaff. Gwarchod pawb! Roedd hwnnw'n canolbwyntio ar wasgu gyda'i bawen chwith fotwm y drws wrth ei ymyl. Dyma'r drws yn agor a neidiodd allan.

'O Gaff bach, be nesa?'

Parciodd Osian ei gar wrth ymyl yr orsaf betrol a rhedeg i'r maes parcio.

'Gaff! Gaff!' gwaeddodd, 'ble wyt ti?'

Ymlwybrodd Osian rhwng rhengoedd y ceir a chyrraedd rhan o'r maes parcio ger mynedfa'r archfarchnad. Yno, yn llonydd a thangnefeddus erbyn hyn, gorweddai Gaff yng nghwmni creadur tebyg iddo ef ei hun. Roedd hwnnw ynghlwm wrth dennyn, a gogwyddai ei ben yn ddoeth fel petai'n rhoi clust i bopeth a rannai'r ci arall, holl hanes ei dreialon. Roedd Gaff wedi dod o hyd i frawd oedd yn fodlon gwrando.

# Pobol y Rhigwm

Fe gofiwch mai'r dasg i'r rhigymwyr y tro diwethaf (tasg 41) oedd llunio pennill o unrhyw fath i gyfarch unrhyw wleidydd. Mae'n braf dweud mai dau englyn a ddaeth i law, sy'n dangos bod cryn lewyrch ar ysgolion barddol y brifddinas. Braf dweud hefyd nad oes un o'r ddau yn cyfeirio at Donald Trump. Daeth dihirod eraill yn destunau dychan, diolch byth. Dyma'r ddau englyn.

**Englyn i gyfarch Dominic Raab**
(Breuddwydio wrth gerdded ger Pen y Fan)

Moyn moment ers yn blentyn, i'w gydio
A'i godi dros ddibyn.
"Paid rhythu a syllu'n syn,
Dominic Raab. Dyma'n Cribyn!"

(*Darllen "Dyma'n Cribyn" fel "This is Sparta" o'r ffilm* 300)

*Heddychwr – fel arfer*

Bydd anoraciaid cerdd dafod yn gweld bod y llinell olaf yn bendrom (yr orffwysfa'n dod ar ôl y bedwaredd sillaf mewn cynghanedd anghytbwys ddisgynedig, fel y gŵyr darllenwyr y *Dinesydd* mae'n siŵr; mae hi hefyd yn wyth sill). Serch hynny, mae'r llinell glo'n un gref, ac o bosib mai dyna'r llinell a ddaeth gyntaf i feddwl y bardd. Gellir maddau'r beiau cynganeddol, ond dyw hi ddim yn gwneud llawer iawn o synnwyr, hyd yn oed gyda'r troednodyn.

**Englyn i gyfarch Priti Patel**

Gyda hon yn blismones ar hawliau
Y rhelyw, daw gormes
Llwch y llawr un awr yn nes.
Daw, daw poen o du peunes.

*Pry' Glas*

Mae'r ail englyn yn gwbl gywir ac yn gryfach na'r englyn cyntaf. Mae'r tair llinell gyntaf yn dda, a'r drydedd yn gryf iawn… sy'n golygu bod y llinell glo ychydig yn wan, heb fod yn perthyn i weddill yr englyn. Serch hynny, rhaid llongyfarch Pry' Glas ar weithio englyn crefftus a chywir, ac mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf.

Mae testunau'r ddau englyn yn llawn haeddu'r cyfarchiad a roddir hefyd!

*Emyr Davies*

**Enillydd tasg rhif 41 yw**
**Emlyn Williams, Trelluest**
**(sef yr enw Cymraeg ar *The People's Republic of Grangetown*)**

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr yw limrig yn cynnwys y llinell:

**'A hynny yn gwbl haeddiannol.'**

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn **20 Ebrill 2021.**

## Y DIGWYDDIADUR

### EBRILL

**Mercher, 7 Ebrill**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfle i siarad ag athrawon a phlant y tair Ysgol Gymraeg yn y Wladfa drwy Zoom o 7.30pm ymlaen. I gofrestru, cysylltwch ag Eiry Palfrey: eirypalfrey@gmail.com

**Gwener 9 Ebrill**
Menter Caerdydd. Parti Bach y Pasg i rieni, babanod a phlant bach, am 10:30 am. Am fanylion, cysylltwch â gwenno@mentercaerdydd.cymru.

**Mawrth 13 Ebrill**
Gwersi Sbaeneg canolradd am 7:30 pm am saith wythnos; £21. Cysylltwch â rachel@mentercaerdydd.cymru neu cofrestrwch ar www.mentercaerdydd.cymru.

**Mercher 21 Ebrill**
Seminar Ymchwil Rhithwir am 1 pm gan Stephanie Le Pelleter: "Polisïau plentyndod cynnar sydd o fudd i feithrinfeydd trochi Llydaweg". Hon fydd y seminar olaf yng nghyfres y gwanwyn Ysgol y Gymraeg. Cofrestrwch ar https://bit.ly/2Xw1u9h. Mae mwy o fanylion ar wefan y Brifysgol neu cysylltwch â cymraeg@caerdydd.ac.uk.


### MAI


**Gwener 7 Mai**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Hazel Walford Davies ar y testun 'O. M. Edwards: Caerdydd, Cymru a'r Cymrodorion'. Am 7.30pm drwy Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews: m.g.derwendeg@gmail.com

**Mercher 19 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Blynyddol y Gangen drwy Zoom am 7.30pm, yn cael ei ddilyn gan sgwrs â Luned González o'r Gaiman. I gofrestru, cysylltwch ag Eiry Palfrey: eirypalfrey@gmail.com

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

## Rhif: 212



### Ar Draws

6. Mwy nag un o hwn (7)
7. Yn swnio'n ddyfodol tywyll, di-werth (2-3)
9. Huno ar ddechrau'r cyfarfod Ysgol Sul gorau un! (5)
10. Cant yn troi'r tir yn gymwynasgar (7)
12. A fydd Gelert pan â o gwmpas y cant yn ymddeol yma? (11)
14. Cymer gam Dai, mewn amryfusedd (11)
18. Dull i ddeg droi'n flinedig (7)
19. 'Ar noswaith oer fe chwysai
    Y ----- yn ddafnau mawr' (MR) (5)
21. 'Ar feysydd llwyd, a gweirglodd las
    Ac awel Ebrill fel ----- -----' (IDH) (1,4)
22. 'Ar y groes dyrchafwyd Iesu
    Fel y sarff ar ----- hir' (PJ) (7)

### I Lawr

1. Porth i'r dyffryn hwn (5)
2. 'Mae ynddo'n trigo bob cyflawnder
   Llond ----- colledigaeth dyn' (AG) (6)
3. Pryfed sy'n swnio'n fychan (3)
4. Dinistrio'r anffaeledig ar Awst 1af (6)
5. Ffordd i garu llu mewn arfwisgoedd (7)
8. Dwed bader newydd mewn amgylchiadau tywyll i'th adfywio (7)
11. Gwneud llanast fel y beirdd efallai (7)
13. Gogleddwr yn dod a llu i gyffroi a nerthu (7)
15. Pobl gyffredin yn tynnu'r llo o'r gorllewin gwyllt. (6)
16. Dechrau sôn am enwau amrywiol i'w maldodi (6)
17. Teiar wedi byrstio yn achosi stŵr (5)
20. Mesur o dir mewn derwen (3)

**Enillydd Croesair Rhif 210**
**Rhiannon Evans, yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 210**

**Ar Draws** 7. Ysigodd 8. Croesi 10. Gorffwys 11. Sugno 12. Trol 13. Afiach 17. Esgid 18. Hela 22. Nerthu 23. Abererch 24. Drycin 25. Ionawr

**I Lawr** 1. Pysgota 2. Diwrnod 3. Iorwg 4. O risial 5. Pesgi 6. Digon 9. Y safri fach 14. Astudio 15.Telerau 16. Carcharu 19. Anadl 20. Crwys 21. Defod

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Ysgol Bro Morgannwg

Daeth tymor prysur arall i ben yma yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Er gwaetha'r angen i ddysgu o adref, ni roddodd hynny baid ar weithgarwch di-ddiwedd yr ysgol a hynny dan arweiniad gadarn ein Prifathro newydd, Mr Rhys Angell Jones. Ar ddiwedd y tymor, carem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r ysgol.

***Caergrawnt***

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Griffiths, blwyddyn 13, ar dderbyn cynnig i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt y flwyddyn nesaf. Derbyniwyd Rhys i astudio Saesneg yng ngholeg Gonville a Caius. Ymfalchïwn yn llwyddiant Rhys wrth iddo ddilyn yn ôl troed y deg disgybl blaenorol o'r ysgol a dderbyniodd gynnig i astudio ym Mhrifysgolion Rhydychen neu Gaergrawnt dros y pum mlynedd diwethaf. Dywedodd Rhys, "Edrychaf ymlaen yn arw at gael cyfarfod pobl newydd a rhannu profiadau newydd. Wrth gwrs, carwn ddiolch i'r ysgol am ei holl gefnogaeth dros y blynyddoedd, ond hefyd wrth baratoi ar gyfer y profiad arbennig hwn." Pob dymuniad da i ti, Rhys!

***Theatr Iolo***

Yn ddiweddar, enillodd Rhiana Lewis, blwyddyn 11, gystadleuaeth genedlaethol wrth ysgrifennu drama ar gyfer cwmni Theatr Iolo. Mae drama lwyddiannus Rhiana, 'Cer i Ffwrdd', bellach ar gael i wrando arni ar wefan Theatr Iolo. Dywedodd Rhiana, "Roedd cymryd rhan yn y gystadleuaeth dramodydd ifanc yn brofiad bythgofiadwy. Fe wnaeth y gystadleuaeth adeiladu hyder yn fy ysgrifennu, a fy annog i barhau i ysgrifennu."

***Comic Relief***

Bu'r ysgol yn brysur yn dathlu diwrnod Comic Relief gan godi arian wrth wisgo'u dillad eu hunain a thrwynau coch i'r ysgol. Cododd yr ysgol gynradd £200 er budd yr elusen. Da iawn bawb!

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Cyhoeddodd y Canghellor, Rishi Sunak, ei Gyllideb ar 3 Mawrth 2021. Dyma rhai o'r prif gyhoeddiadau ar gyfer unigolion:

1. Does dim newid i gyfraddau treth incwm, Yswiriant Gwladol na TAW. Yn ogystal, mae lwfansau personol ar gyfer treth incwm, treth etifeddiaeth a threth ar eiddo wedi cael eu rhewi tan 2026.

2. Mae rhai o brif fenthycwyr y wlad wedi lawnsio morgeisi o 95% i gefnogi'r rheiny sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf.

3. Bydd uchafswm talu digyswllt (*contactless payment*) yn codi i £100 yn hwyrach eleni.

4. Mae'r cynllun ffyrlo wedi cael ei ymestyn tan ddiwedd Medi gyda chymorth o 80% o gyflogau ar gael. Bydd angen i gyflogwyr wneud cyfraniad tuag at y cynllun ym misoedd Gorffennaf, Awst a Medi 2021.

5. Estynnwyd y cynnydd wythnosol o £20 i gynllun Credyd Cynhwysol am chwe mis ychwanegol.

6. Bydd y pedwerydd grant i'r hunan-gyflogedig yn agored i'r newydd hunan-gyflogedig sydd wedi cwblhau ffurflen dreth ar gyfer 2019-2020. Disgwylir i'r grant agor tuag at ddiwedd mis Ebrill a bydd cymorth o 80% o gyfartaledd elw ar gael. Bydd pumed grant i'r hunan-gyflogedig ar gael yn hwyrach eleni hefyd.

Ar wahân i gyhoeddiad y Gyllideb, mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu £30m i'r Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer busnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth. Cadwch lygad ar wefan Busnes Cymru am fanylion o unrhyw grantiau pellach: https://businesswales.gov.wales/cy

*Cwestiynau Huw ac Aled: dwi wedi clywed bod modd trosglwyddo peth o fy lwfans personol i fy mhartner i leihau ein treth incwm. Yw hyn yn gywir?*

Mewn cwpl priod neu bartneriaeth sifil, os yw un ohonoch yn ennill llai na £12,500 a'r llall yn drethdalwr cyfradd sylfaenol, gellir trosglwyddo £1,250 o lwfans personol un partner i'r llall, gan arbed £250 o dreth. Dyw'r arbediad ddim mor hael ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch. Cysylltwch â ni os ydych yn meddwl y gallech chi fanteisio ar y lwfans yma.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

## Gwanwyn yn troi'n haf ar Gamlas Morgannwg a'r Crëyr Glas yn Fferm y Fforest





# Pa dôn sy orau?

Cyn y cyfnod clo cefais brofiad arbennig mewn oedfa wrth ganu'r geiriau cyfarwydd, 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus….' (Rhif 780 yn Caneuon Ffydd) ar y dôn gyfarwydd Calon Lân (Rhif 634). Pam profiad arbennig? Am fod yr emyn yn digwydd mewn oedfa ac nid mewn angladd neu mewn gêm rygbi. Mae'r ddau achlysur hyn yn peri i mi ryfeddu a gwingo oherwydd yn y naill a'r llall mae'n anodd canfod unrhyw argyhoeddiad crefyddol ymhlith y mwyafrif o'r cantorion/bloeddwyr; go brin y gellir sôn am naws. At hyn mae'r dryswch yn dwysáu o dderbyn bod y mwyafrif o'r rhai sy'n canu (gydag arddeliad rwy'n cydnabod) heb ddigon o'r Gymraeg i ddeall ystyr y geiriau.

Beth bynnag, yn yr oedfa fendithiol hon roedd emyn 780 yn cyd-weddu'n gain gyda thri emyn arall (869, 816, 852) a chyda'r darlleniadau (Mathew 25, 31-46, '…..yn gymaint ag i chwi…' a Mathew 6, 19 – 21 ' Peidiwch a chasglu ichwi drysorau ar y ddaear….'). Roedd y dewisiadau hyn yn sail ac yn ffrâm i'r myfyrdod oedd yn ein herio i ystyried sut y byddwn yn dewis ac yn casglu eiddo, cwmni a phrofiadau hoff ac yna yn eu rhannu.

Wrth ganu a gwir geisio darllen ac ystyried y geiriau (nid hawdd oherwydd rhaid mynd gyda'r organ) meddyliais fod y ddau neu dri bar sy'n cloi cytgan Calon Lân yn negyddu prif neges y geiriau. Y neges honno yw bod y galon lân yn medru canu YN Y NOS ac yn y dydd. Y gamp fawr/y synhwyro deallus/y sylweddoliad/y weledigaeth yw bod y galon lân (y person cytbwys, cywir) yn medru canu (gorfoleddu/bod yn gadarnhaol/wynebu bywyd yn obeithiol) yn y NOS (cyfnodau tywyll, trist, bygythiol bywyd). Bron y gellir cynnig bod yr emyn yn mynegi'r hyn sy'n agos at fod yn hunan-eglur, sef, y gall unrhyw galon (pawb ohonom) ganu yn y DYDD (cyfnodau hapus bywyd, dim problem, dim pryder). Her arall yw canu yn y nos; dyna pryd mae angen rhuddin gwahanol, personoliaeth gadarn, golwg wahanol ar fywyd, ffydd ac argyhoeddiad ysbrydol.

Os canwch ddiweddglo cytgan Calon Lân fe brofwch fod y nodyn uchaf – y floedd – yn seinio 'dydd' cyn disgyn yn flinedig at y 'nos'. Onid fel arall y dylai fod? Oes ateb? Y symlaf yw cyfnewid y geiriau 'nos' a 'dydd', ond byddai hynny, medd rhai, yn tramgwyddo'r odl rhwng 'nos' a 'dlos'. Ond, medda' i, pwy sy'n poeni am neu yn clywed odl mewn cerddoriaeth?

Beth am ddewis tôn arall i'r geiriau? O chwilio Caneuon Ffydd cefais fod digon o ddewis, gan fod y mesur M10/87.87.D. yn boblogaidd iawn, y mwyaf poblogaidd gyda 65 o donau. Yn eu plith ceir rhai adnabyddus iawn, megis Dusseldorf (162), Hyfrydol (218), Arwelfa (516) a Blaenwern (595). Gyda hyn o wybodaeth yn codi fy ysbryd es ati i archwilio pob un o'r 65, ond yn cael siom fawr; dim ond pump (19, 21, 72, 190, 543) sy heb 'fai' 780, sef, diweddglo disgynedig yn y gytgan a felly 'dydd' yn cael llawer mwy o sylw na 'nos'.

Wrth gwrs, rhaid cydnabod cyfraniad gwerthfawr cytgan i godi'r cantorion, boed mewn angladd neu ornest rygbi. O blith y 65 tôn ar y mesur M10/87.87.D. tair yn unig sydd â chytgan, sef, 110, 190 a 634; hynny yw, cytgan sy wedi'i hargraffu ar wahân i'r penillion. Ond, daliwch eich gwynt, mae dwy arall, 21 a 373, lle mae pedair llinell yn guddiedig oddi mewn i bob pennill a felly yn fath o gytgan. Pam dewiswyd y fformat hon?

I gloi. A oes tôn ar wahân i Calon Lân sy'n gweddu'n well i'm dehongliad i o'r geiriau? Oes, Sanctus (21). Mi wn yn iawn y bydd rhai cynulleidfaoedd, arweinyddion cymanfa a chodwyr canu capel yn protestio bod Sanctus yn gadwedig mewn glân briodas gyda'r geiriau, 'Glân geriwbiaid a seraffiaid…..' . Ond, ystyriwch. Mae agoriad Sanctus yn ogoneddus o fynegiant o fwriad… NID wy'n gofyn…… Mae Calon Lân yn wannaidd yma. Mantais arall sy gan Sanctus yw'r barau ar ddiweddglo'r gytgan lle mae'r tenoriaid yn dyrchafu a bywiocáu, yn enwedig yn y nos.

A oes côr neu gynulleidfa s'yn barod i fentro?

*Neville Evans*

---

PAPURAU BRO

Ym mis Mawrth 2021 lansiwyd gwefan newydd ar gyfer yr holl Bapurau Bro Cymraeg www.papuraubro.cymru.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswllt a mwy ar gyfer pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w cymunedau.

Dywed Dylan Lewis, cadeirydd Papur Bro Clonc (ardal Llanbedr Pont Steffan): *"Ry'n ni wedi bod angen un o'r rhain ers blynyddoedd. Mae'r Papurau Bro yn gwneud gwaith anhygoel ym mhob ardal drwy Gymru, ond mae hefyd yn braf iawn cael y teimlad ein bod yn rhan o rywbeth mwy."*

Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr y Papurau Bro rannu adnoddau a chyfathrebu.

Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru: *"Ry'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hwn yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen gyda'i gilydd a datblygu mewn cyfnod lle mae presenoldeb ddigidol mor bwysig."*

Dywed Lowri Jones ar ran Bro360: *"Ry'n ni'n falch bod Bro360 wedi gallu helpu papurau bro i barhau i gyhoeddi yn ystod cyfnod heriol Covid. Edrychwn ymlaen at helpu'r papurau i ddatblygu ymhellach trwy gynnig arbenigedd cwmni Golwg ym maes newyddiaduraeth annibynnol i gynnal tair sesiwn hyfforddiant i gyfranogwyr y papurau bro dros yr wythnosau nesa."*

# Mis Ebrill gyda Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg

Bydd gan Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg amserlen llawn gweithgareddau gwyliau amrywiol i blant a phobl ifanc o bob oed yn ystod gwyliau'r Pasg. Bydd cyfle i ddysgu Sbaeneg (7 Ebrill), ymarfer corff (8 Ebrill) yn ogystal â sesiynau hwyliog Bwrlwm (7 Ebrill), Parti Bach y Pasg i'r gynulleidfa iau (9 Ebrill) a llu o grefftau'r Pasg.

Bydd sesiynau Bwtcamp yn ail-ddechrau bob amser cinio dydd Llun, a bydd cyfle i ymestyn y corff ar nos Fercher gyda Pilates yng nghwmni Mari-Wyn. Os mai dysgu iaith a phrofi diwylliant sy'n apelio, mae cwrs newydd Sbaeneg lefel canolradd yn dechrau (13 Ebrill), ynghyd â chyfle i goginio tapas ddiwedd y mis (23 Ebrill) yng nghwmni Siân o Loving Welsh Food, lle cewch dderbyn ryseitiau ym mlaen llaw er mwyn coginio ar y pryd.

Bydd rhai o hoelion wyth ein hamserlen wythnosol yn parhau y tymor hwn, gan gynnwys Ukulele i Ddechreuwyr, y Gerddorfa Ukulele, y Boreau Coffi i Ddysgwyr a'r Clwb Garddio misol. Cofiwch hefyd am ein harlwy ar gyfer plant a phobl ifanc – o sesiynau drama a dawns i ioga, clwb crefft, Bwrlwm a sesiynau arwyddo a chân i rieni a babis. Bydd hefyd gwersi Ffrangeg a Sbaeneg i blant yn dechrau, gan roi cyfle i ddysgu iaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Heb os, un o uchafbwyntiau'r mis fydd Gŵyl Fach y Fro (17 Ebrill), lle byddwn yn croesawu rhai o artistiaid blaenllaw'r ardal i berfformio gwledd o gerddoriaeth yn heulwen braf y Barri! Bydd gweithgareddau a gweithdai o bob math i blant a phobl ifanc, sgyrsiau a darlith a chyfle i gefnogi busnesau annibynnol lleol yn ein marchnad!

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ein holl weithgareddau ar ein gwefannau – mentercaerdydd.cymru a menterbromorgannwg.cymru - a'r cyfryngau cymdeithasol, neu cysylltwch â ni ar post@mentercaerdydd.cymru neu 029 2068 9888.

## Dydd Llun

Bwtcamp | 12:00 - 12:45 | Oedolion
Gwersi Ffrangeg | 16:00 - 16:30 | Derbyn - Bl.2
Gwersi Ffrangeg | 16:45 - 17:15 | Bl.3 - 6
Dawns Gyda Rubicon | 16:30 - 17:15 | Bl.3 - 6
Ukulele i Ddechreuwyr | 19:00 - 20:00 | Oedolion
Sbaeneg i Ddechreuwyr | 19:30 - 20:30 | Oedolion
*Hanes Cymru | 19:30 - 20:30 | Oedolion

## Dydd Mawrth

Crefft gyda Coed Lleol | 16:00 - 16:45 | Cynradd
Ioga gydag Eva Huw | 16:30 - 17:00 | Bl.3 - 6
*Clwb Cacennau | 11:00 - 12:00 | Oedolion
*Clwb Cerdd | 19:30 - 20:30 | Oedolion
Sbaeneg Canolradd | 19:30 - 20:30 | Oedolion

## Dydd Mercher

Amser Arwyddo | 10:30 - 11:00 | Rhiant & Babi
*Bwrlwm Ar-lein | 16:00 - 16:45 | Cynradd
Y Gerddorfa Ukulele | 19:00 - 20:00 | Oedolion
Pilates | 19:30 - 20:30 | Oedolion

## Dydd Iau

Gwersi Sbaeneg | 16:00 - 16:30 | Derbyn - Bl.2
Gwersi Sbaeneg | 16:45 - 17:15 | Bl.3 - 6
Clwb Garddio | 18:00 - 19:00 | Oedolion

## Dydd Sadwrn

Dawnswyr Bach Y Dre | 9:30 - 10:00 | Derbyn - Bl.2
Drama Bach Y Dre | 10:15 - 10:45 | Derbyn - Bl.2
Drama Mawr Y Dre | 11:00 - 12:00 | Bl.3 - 6

## Achlysurol

6ed: *Adar Cymru | 15:00
9fed: *Parti Bach Y Pasg | 10:30
9fed: Gweithdy Coctels gyda Blasus | 19:00
17eg: *Gŵyl Fach Y Fro | 14:00
23ain: Tapas Cymreig | 19:00
26ain: *Sgwrs y Mis - Dafydd Wiliam | 19:30

# Bwyd Merch y Ddinas

*Ymhle mae'r bwyd gorau?*



## Lowri Haf Cooke

**Bwyd gorau'r flwyddyn...yn ôl y gwybodusion!**

Wel wir, gwibiodd blwyddyn gyfan heibio ers dechrau argyfwng COVID-19. Ac roedd bwyd yn ganolog i ddyddiau'r rhan fwyaf ohonom, mewn ffyrdd gwahanol iawn i bawb. Os y' chi'n ddarllenwr cyson o'r golofn hon, byddwch chi'n gwybod yn iawn sut dreuliais i'r flwyddyn ddiwethaf! Pobi, coginio, fforio am fwyd gwyllt, a chefnogi cwmnïau lleol. A dwi 'nôl bellach yn pigo garlleg gwyllt ar gyfer paratoi pesto tymhorol! *Plus ça change*, fel y dywed y Ffrancwyr. Ond beth am 'foodies' eraill Caerdydd a'r Fro? Beth wnaeth eu cynnal, neu eu plesio fwyaf dros y flwyddyn ryfeddol? Estynnais wahoddiad i rai o'r gwybodusion rannu eu cyfrin argymhellion, i'm hysbrydoli innau – a chithau – dros fisoedd y gwanwyn.




Bu cwrdd â'm cyfaill Dorian Morgan am glonc ym marchnad ffermwyr Glanyrafon wir yn donic ar hyd y flwyddyn. Yn deithiwr rhyngwladol, mae e'n *gourmet* a hanner, a'i glecs bwyd wastad yn hawlio gwrandawiad. Cafwyd sawl achlysur yn ystod y pandemig lle bu'n rhaid troi at bobl eraill am help gyda'r coginio! Mae'r blychau neu'r parseli bwyd pedwar cwrs yn cynnig y peth agosa at brofiad bwyty ag y gallwch chi gael o dan yr amgylchiadau. Ro'dd blychau bwyd James Sommerin a chwmni Rocket & Rye (sydd ar fin agor yn y Bont-faen) yn drît perffaith ar ddiwedd wythnos. Ac i borthi'r dant melys, cafwyd sawl ymweliad gan y cwmni pobi gwych Tŷ Melin Bakery. Eu 'croissant-bomb' yw fy ffefryn. Yn wir, mae archeb ohonynt ar eu ffordd ar gyfer pen-blwydd Dorian dros benwythnos y Pasg, ond beth am y cinio mawreddog ei hun? "Heaney's llynedd – Tom Simmons eleni." Iechyd da a phen-blwydd hapus iddo wir!

Un arall sy'n canu clodydd bwyty Thomas by Tom Simmons yw Gwenno Penrhyn, perchennog siop ddillad Kiti ym Mhontcanna. Fel y dywed Gwenno ei hun, "Dwi hefyd yn mwynhau tecawe Nook, Parc Victoria - mae'r ddau le yn hollol wych." Drws nesa, yn Canna Deli, mae Elin Wyn Jones yn edrych mlaen at gael ail-agor ei busnes poblogaidd hi, a wnewch chi ddim synnu i glywed enw'r cyntaf o'i thri argymhelliad hithau... "Da ni wir wedi mwynhau cinio dydd Sul o fwyty Thomas, a sesiwn Zoom blasu gwin Cambio Wine. Dwi hefyd wedi anfon bocs cacennau o Pretty Cake Corner i lawer o ffrindiau ar achlysur pen-blwydd neu i godi calon."

Un arall sydd wedi codi calonnau gyda'i gwasanaeth cludo prydau a chacennau yw'r actores Annes Elwy o Benarth, sy'n serennu eleni fel gweinyddes enigmatig yn y ffilm arswyd amgylcheddol *Gwledd*. "Mae byrgyr Blodeuwedd cwmni Ansh yn Nhreganna wedi bod yn bleser reit reolaidd pan dwi jyst ddim isio coginio, yn ogystal â chludiannau 'crossants' a thartenni cwstard popty Tŷ Melin, a choffi 'flat whites' di-ri o gaffis Lufkin, a'r Secret Garden ym Mharc Bute." A'i barn hi ar ginio Sul tec-awe Tom Simmons (y lle cyntaf ar ei rhestr)? "Anghredadwy o dda." Wir, gyfeillion, dwi'n addo - dwi ddim ar gomisiwn!

Bu'r flwyddyn dd'wetha hefyd yn brysur i Ieuan Harry a Jez Phillips, a fu'n serennu ar gyfres deledu *Pizza Boys* BBC Cymru dros yr wythnosau diwethaf, ac aethon nhw ati i addasu eu busnesau, Ffwrnes a West Pizza, i gadw pizza-garwyr Caerdydd a'r Fro yn ddiddig ar hyd y pandemig. Ymysg eu pigion personol nhw? "Cwmni *pop-up* Pasta a Mano, Purple Poppadom yn Nhreganna, Ansh, West Pizza wrth gwrs (!), becws Pettigrew, cyri Cinnamon Tree a Curado." Ac roedd ganddynt un argymhelliad olaf wnaeth ddenu fy chwilfrydedd, gan fy mod i wedi bod yn glafoerio dros luniau'r cwmni hwn ar eu cyfrif Instagram! "Y pei stêc a chwrw o dafarn fwyd yr Heathcock – roedd *mash* a chabej hyfryd gyda fe fyd." I Landaf ar fy union am ginio, dwi'n meddwl... diolch i bawb am gynnau tân yn fy mol!